

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau

Dyddiad: Dydd Mercher 13 Gorffennaf 2022

Amser: 10.00 y.b.

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Mr. Owain Wyn.

R H A G L E N

Rhifau Tudalen

- 1.* **Cadeirydd**
Ethol Cadeirydd y Pwyllgor.
- 2.* **Is-gadeirydd**
Ethol Is Gadeirydd y Pwyllgor.
3. **Ymddiheuriadau**
Derbyn ymddiheuriadau gan yr Aelodau
4. **Datgan diddordeb**
Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.
5. **Cofnodion** **3 - 7**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir. (Copi yma)
6. **Taflen Gweithredu** **8 - 9**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)
7. **Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2021/22** **10 - 22**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. (Copi yma)
8. **Adroddiad Aildro Refeniw a Chyfalaf 2021/22** **23 - 37**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)
9. **Proffil Risg yr Awdurdod** **38 - 47**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
10. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2021/22** **48 - 89**
Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
11. **Adroddiad Monitro Cwynion** **90 - 94**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)
12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch** **95 - 101**
Cyflwyno cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 9fed Chwefror a 18fed Mai 2022. (Copïau yma)

* Tynnir eich sylw at orchymyn sefydlog 5.8 sy'n datgan "Ni fydd unrhyw Aelod yn gwasanaethu fel Cadeirydd neu Is Gadeirydd mwy nac un Pwyllgor".

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 23 MAWRTH 2022**

Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Gwynedd) (Cadeirydd)

YN BRESENNOL :

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Mike Stevens;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorydd Phil Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Ms. Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. S. Owen, Mr. E. Jones, Mrs. A. Gaffey;

Dyweddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, ac:-

- mae Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac mae'r Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ond gellir ei roi ar gael ar-lein yn ddiweddarach .

1. Ymddiheuriadau

Cynghorwyr Annwen Hughes, Gethin Glyn Williams; Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones.

2. Datgan Budd

Datganodd Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones a Mr. Jonathan Cawley ddiddordeb yn eitem 10 ar y Rhaglen ac aethant allan o'r cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei drafod.

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 24^{ain} Tachwedd, 2021 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiad Diweddarau ar Gyllid Grant Allanol

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar brosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod ac i gymeradwyo'r broses briodol ar gyfer derbyn prosiectau/rhaglenni ar gyfer blynyddoedd i ddod yn ffurfiol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Dywedodd fod trafodaethau gyda Swyddfa'r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr wedi arwain at Lywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd bod aelodau'n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo cyllid grant. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid adolygu'r drefn bresennol ar gyfer cymeradwyo cyllid grant aelodau. (Atodiad 3)

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Atodiad 1 : mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr fod y risg o

arian cyfatebol anwarantedig ar gyfer prosiectau a ariennir gan grantiau Ewropeaidd bellach wedi'i leihau gyda chontract cyfreithiol rwymol ar waith ar gyfer prosiect LIFE.

- cytunodd y Prif Weithredwr i roi rhagor o fanylion i Aelod am leoliad stad dai 'Adra' sy'n cael ei hadeiladu o fewn y Parc Cenedlaethol.
- gofynnodd Aelod a oedd trefniant i wyth Tirwedd Ddynodedig Cymru ystyried prosiectau cydweithredol ar gyfer 2022/23?
- dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r rhestr o brosiectau yn y dyfodol, a amlinellwyd ym mharagraff 3, yn cael ei hystyried ymhellach unwaith y byddai aelodaeth newydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu.
- Ystyriodd yr Aelodau a oedd y 'status quo' yn ddigon i ganiatáu i'r Aelodau ddarparu trosolwg strategol a monitro'r rhaglen grantiau neu a ddylid sefydlu trothwy ariannol. Daeth yr aelodau i'r casgliad eu bod yn fodlon gyda'r broses bresennol.
- roedd y Prif Swyddog Cyllid yn cefnogi swyddogion i barhau i ddatblygu a chyflwyno bidiau o fewn y meysydd strategol y cytunwyd arnynt gan yr Aelodau, ac i dderbyn cynigion grant. Gallai swyddogion wedyn, os yw'n briodol, ofyn am gymeradwyaeth yr aelodau ar y cyfle cyntaf yn dilyn cynnig grant.
- Cynghori Llywodraeth Cymru am y penderfyniad i barhau â'r sefyllfa bresennol. Pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio newid y drefn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno bryd hynny.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr fod y polisi ar gyfer prynu tir neu eiddo wedi'i ddiwygio i roi mwy o hyblygrwydd.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi bod prosiectau TCLIC 2021/22 wedi'u cwblhau.**
- 2. nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).**
- 3. cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).**
- 4. nodi'r cwmpas posibl ar gyfer cyflwyno grant TCLIC 2022/23.**
- 5. hysbysu Llywodraeth Cymru bod yr Awdurdod wedi penderfynu cadw'r trefniadau presennol ar gyfer datblygu a derbyn grantiau.**

5. Log / Cofnod Gweithredu

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.

6. Diweddariad ar y Gyllideb 2021/22

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau ynghylch trosglwyddiadau sylweddol o fewn cyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer unarddeg mis cyntaf 2021/22 ac yn rhoi rhagamcan o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd yr Aelodau'r tanwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o £100,500 sy'n cynrychioli 1.25% o gyfanswm y gyllideb.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

7. Proffil Risg yr Awdurdod

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg ac amlinellodd y 4 prif newid i'r gofrestr.

Yn codi wedi hynny,

Risg Cyf. 2 Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch)

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er bod Plas Tan y Bwlch wedi cyflawni ei darged cynhyrchu incwm, yr oedd costau ychwanegol wedi cael ei achosi, megis costau tanwydd a staff. Roedd y Pennaeth Cyllid wrthi'n paratoi adroddiad manwl ac roedd Rheolwr Tŷ'r Plas yn y broses o baratoi Cynllun Busnes a fydd yn cynorthwyo swyddogion i ddarparu rhagolygon gwell ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Risg Cyf. 4 – Risg i enw da par. rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y risg yn parhau i fod yn ganolig (melyn) a chadarnhaodd fod Rheolwr Profiad Ymwelwyr newydd yn cael ei benodi.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg fel yr amlinellwyd.

8. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol. Dywedodd ymhellach, lle'r oedd y gwaith wedi'i gwblhau, fod diweddariadau chwarter pedwar hefyd wedi'u cynnwys os oedd y wybodaeth ar gael.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a diweddariadau trydydd chwarter. Trafododd aelodau a swyddogion rai o'r tueddiadau a ddangosir mewn coch yn fanylach.

- Gwella Rheolaeth a Dealltwriaeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol
cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd y wefan newydd yn manylu ar yr holl deithiau cerdded sy'n cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Wardeniaid a fydd, gobeithio, yn cynyddu diddordeb. Cadarnhaodd y Pennaeth Ymgysylltu fod Cwmni Nod Glas wedi cysylltu â'r Awdurdod ac y bydd modd darparu gwybodaeth ar ran 3^{ydd} partion, unwaith y bydd y wefan newydd yn cael ei lansio.
- Cefnogi Pobl Ifanc
Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r Swyddog Ieuenctid yn dechrau yn ei swydd yn ystod Ebrill 2022. Bydd gwaith i gefnogi pobl ifanc yn dechrau fel blaenoriaeth.
- Hyrwyddo a Chefnogi'r Iaith Gymraeg yn Weithredol
mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod disgwyl data'r cyfrifiad ym mis Mai 2022. Dylai'r amserlen newydd ganiatáu digon o amser i swyddogion gyflwyno adroddiad cychwynol i'r Aelodau yn amlinellu meysydd blaenoriaeth ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2022.
- dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y Panel Craffu Enwau Lleuedd wedi cytuno ar y sail i swyddogion baratoi nodyn canllaw i'w gyflwyno i'r Awdurdod naill ai ym mis Gorffennaf neu fis Medi 2022.
- croesawodd Aelod ymrwymiad yr Awdurdod i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau difreintiedig a gofynnodd a allai hyn ffurfio rhan o rôl y Swyddog Gwirfoddoli a Lles?

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. **Diwygio Ffioedd Llyn Tegid**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Eiddo yn ceisio diwygio Ffioedd presennol Llyn Tegid.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Eiddo'r adroddiad a'r cefndir a chadarnhaodd y byddai deiliaid bathodynau glas yn dal i gael parcio am ddim. Dywedodd fod yr Awdurdod wedi elwa o newid y dull o gasglu ffioedd â llaw i ddull electronig. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y caniateir parcio tan hanner nos yn unig a bod parcio anghyfreithlon dros nos yn fater i'w drafod mewn ymgynghoriad â Chyngor Gwynedd. Gofynnodd y Pennaeth Eiddo i'r Aelodau hysbysu swyddogion am unrhyw dorri rheolau parcio ar ymyl y ffordd a fyddai'n cael eu codi wedyn gydag Awdurdod Priffyrdd Gwynedd ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r adolygiad ffioedd fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2022.

10. **Datganiad Polisi Tâl 2022/23 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Gwynedd i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2021/22.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth AD yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd wybod am y Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol o 1.75% ar gyfer 2021/22.

PENDERFYNWYD

1. **cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.**
2. **cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2021/22.**

11. **Rhyddid Gwybodaeth**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad, er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

12. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2021: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu ynghyd ag adroddiad blynyddol ar ddangosyddion perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a chynnydd ar y cynllun gweithredu.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu'r adroddiad, y cefndir ac Adroddiad Cynnydd 2021 yn fanwl.

Yn codi wedi hynny , gofynnodd Aelod, yng ngoleuni'r blaenoriaethau a nodir yn natganiad Gwerthfawr a Chydnerth Llywodraeth Cymru, i ba raddau yr oedd y strategaeth yn canolbwyntio ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sut y gellid gwella hyn ar gyfer y dyfodol. Hefyd, gofynnodd am gofnodi llwyddiant staff yr Awdurdod wrth gynorthwyo Llywodraeth Cymru yn eu hymgyrch recriwtio ddiweddar ar gyfer Aelodau newydd, a fu'n llwyddiannus iawn.

PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2021: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

13. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 24^{ain} Tachwedd 2021, er gwybodaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod adroddiad y syrfewyr, a oedd yn helaeth, wedi'i dderbyn a bod swyddogion yn awr yn aros am y crynodeb gweithredol. Y camau nesaf fyddai pecynnu a blaenoriaethu'r gwaith i'w wneud yn fforddiadwy a byddai'r gwaith wedyn yn cychwyn yn Haf 2023. Yn y cyfamser, bydd peth gwaith dros dro yn cael ei wneud oherwydd does dim byd angen sylw'n syth bin ond maent angen sylw yn y tymor canolig.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri	PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.	Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri.	JC	Mae swyddogion yn cyfeirio i waith "Small World Consulting" fel sylfaen i ddatblygu Strategaeth Carbon APCE. Bydd Grwp Llywio Carbon yr Aelodau yn trafod hyn yn ystod mis Medi.	NA



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 24.11.2021

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
9. Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg 2016-21: Asesu'r Canlyniad	PENDERFYNWYD aros am ganlyniad y cyfrifiad, cyn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod am y 5 mlynedd nesaf	Cyflwyno adroddiad pellach a nodi meysydd blaenoriaeth yr Awdurdod ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.	GIJ/BH	Penodwyd Grŵp Llywio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a bydd dyddiad y cyfarfod cyntaf yn cael ei drefnu yn fuan.	NA

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	13 Gorffennaf 2022
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2021/22
ADRODDIAD GAN:	Pennaeth Archwilio Mewnol
PWRPAS	Adroddiad Blynyddol

1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

- 1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn diffinio Archwilio Mewnol fel **“gweithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig”**.
- 1.2 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn **“gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o’u materion ariannol ac yn sicrhau fod un o’u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn”**. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i gynnal gwasanaeth archwilio mewnol.
- 1.3 Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd. Er bod y gwasanaeth wedi ei leoli yn allanol i’r Awdurdod, mae’n darparu gwasanaeth i’r holl awdurdod fel arf i reolwyr i ymwybyddu a chryfhau rheolaeth fewnol, ac yn cynnig i **“Swyddog Adran 151”** yr Awdurdod (y Prif Swyddog Cyllid) y sicrwydd angenrheidiol fel sy’n ofynnol dan ddeddf gwlad.
- 1.4 Mae defnydd priodol o’r adnoddau sydd ar gael i Awdurdod y Parc yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaethau a gynigir o safon uchel. Nod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i’r Prif Swyddog Cyllid, ac fel canlyniad i’r holl Awdurdod, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a’u defnyddio’n briodol, gyda thryloywder.
- 1.5 Mae’r adroddiad blynyddol yma yn cynnwys:
- Disgrifiad o’r cyd-destun ar gyfer paratoi’r adroddiad blynyddol
 - Crynodeb o waith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2021/22
 - Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23.

2. GWAITH ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

- 2.1 Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn crynhoi barn y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan y gwasanaeth ar gynllun archwilio 2021/22.
- 2.2 Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio Mewnol ei ddarparu yw cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.
- 2.3 **Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2021/22, yn fy marn i mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion yr Awdurdod, gan fod y camau a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod camau gweithredu i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn dda ar y cyfan.**
- 2.4 Roedd pedwar darn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol gwreiddiol 2021/22, sef:
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
 - Trefniadau tendro
 - Rheoli absenoldebau a llesiant staff
 - Cynlluniau parhad gwasanaeth
- 2.5 Cymeradwywyd yr uchod fel cynllun Archwilio Mewnol 2021/22 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2021.
- 2.6 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 2.7 Mae adroddiadau archwiliadau mewnol llawn 2021/22 wedi eu cynnwys yn Atodiadau 1 i 4.

2.8 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Atodiad 1)

- 2.8.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi eu cynnwys yng nghofrestr risg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r cynnydd yn erbyn adroddiadau diweddar Archwilio Cymru, 'Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn APCE' a gyhoeddwyd yn Ebrill 2021 ac 'Adolygiad o Gyfranogiad - APCE' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2020.
- 2.8.2 **Rhodddwyd lefel sicrwydd "Digonol" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr bod rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

2.9 Trefniadau tendro (Atodiad 2)

- 2.9.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn y gwerth gorau wrth weinyddu a gwobrwyo tendrau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu sampl o dendrau diweddar gan sicrhau bod y trefniadau hysbysu, sgorio a gwobrwyo, yn ogystal â'r taliadau a wneir yn briodol.
- 2.9.2 **Rhodddwyd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr bod rheolaethau mewn lle, ond mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.**

2.10 Rheoli absenoldebau a llesiant staff (Atodiad 3)

- 2.10.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli absenoldebau gweithwyr yr Awdurdod yn sgil y cynnydd mewn gweithio o adref, gan hefyd sicrhau bod cefnogaeth briodol iddynt er mwyn diogelu eu lles. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygiad lefel uchel o bolisiâu a chanllawiau, ystadegau a chofnodion cyfarfodydd yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda'r swyddogion perthnasol.
- 2.10.2 **Rhodddwyd lefel sicrwydd "Uchel" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

2.11 Cynlluniau parhad gwasanaeth (Atodiad 4)

- 2.11.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan yr Awdurdod drefniadau addas mewn lle i barhau i ddarparu gwasanaeth yn ystod cyfnod o argyfwng. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu trefniadau parhad busnes, gan gynnwys trefniadau rheoli, gwersi a ddysgwyd, log risgiau, hyfforddi a monitro.
- 2.11.2 **Rhodddwyd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr bod rheolaethau mewn lle, ond mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.**

3. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23

- 3.1 Mae cynllun Archwilio Mewnol 2022/23 wedi ei ddatblygu ar sail y Siarter Archwilio Mewnol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar ran yr Awdurdod yng Ngorffennaf 2013.
- 3.2 Mae'r dogfennau ac adroddiadau canlynol wedi derbyn sylw penodol gennyf wrth lunio'r cynllun drafft yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol:
- Cynllun Busnes a Gwelliant yr Awdurdod
 - Proffil Risg yr Awdurdod
 - Cyllideb yr Awdurdod a Lefi ar Awdurdodau Cyfansoddol
- 3.3 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau, trafodaethau gyda swyddogion yr Awdurdod, ac ystyriaeth o'r archwiliadau diweddaraf mewn rhai meysydd, awgrymir y canlynol fel cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2022/23:

Archwiliad	Cynllun (Dyddiau)	Rheswm
Cysoniadau Banc	10	Lliflinio prosesau.
Ad-hawlio costau teithio	8	Er mwyn sicrhau cysondeb a phriodoldeb yn sgil trefniadau gweithio o gartref.
Hyfforddiant mandadol	8	Mae rhaid i weithwyr y sector gyhoeddus gwblhau hyfforddiant penodol, megis Diogelu, Cam-drin Domestig ayb.
Gwaith Dilyniant	2	Dilyniant i archwiliadau 2021/22.
<i>Eraill:</i>		
Rheolaeth a Phwyllgorau	2	Amser wedi ei neilltuo i swyddogion Archwilio Mewnol fynychu pwyllgorau'r Awdurdod ac i reoli gwaith.
Cyfanswm	30	

- 3.4 Mae'r cynllun yma yn ddarostyngedig i addasiadau a'i wneud yn derfynol ar sail cyfarfodydd rhwng y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid. Yn ogystal, gall yr uchod newid oherwydd ansicrwydd sy'n codi o bandemig COVID 19.

4. GOBLYGIADAU ADNODDAU

- 4.1 Ni fydd oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad yma.

5. ARGYMHELLION

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn fel "adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofyn y Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, am y flwyddyn ariannol 2021/22.
- 5.2 Gofynnir i'r pwyllgor hefyd ystyried y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifo 2022/23, ac unai ddarparu argymhellion penodol perthnasol a/neu dderbyn y cynllun.

LLESIANT CENDLAETHAU'R DYFODOL

1. Cefndir

1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Wrth wneud eu penderfyniadau, rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent gael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae gweithrediad yr Awdurdod yn erbyn amcanion y ddeddf yn destun archwiliad blynyddol gan Archwilio Cymru.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi eu cynnwys yng nghofrestr risg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r cynnydd yn erbyn adroddiadau diweddar Archwilio Cymru, 'Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn APCE' a gyhoeddwyd yn Ebrill 2021 ac 'Adolygiad o Gyfranogiad - APCE' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2020.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 'Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn APCE'

Cynhaliwyd adolygiad gan Archwilio Cymru o gydnherthedd a chynaliadwyedd gwasanaethau APCE, er mwyn darparu sicrwydd ynghylch pa mor dda yr ymdrinnir â heriau ariannol a heriau o ran capasiti. Adnabuwyd cynigion ar gyfer gwella, a gwelwyd bod camau wedi eu cymryd ar gyfer eu gweithredu. Roedd y cynigion i wella fel y ganlyn:

- I gefnogi cydnherthedd dylai'r Awdurdod gadarnhau ac arfarnu ei ffyrdd newydd o weithio mewn perthynas â llywodraethu, parhad busnes a gweithio o bell
- I gynyddu effaith prosiectau a ariennir â grantiau i'r eithaf dylai'r Awdurdod ddatblygu fframwaith i arfarnu eu cyfraniad posibl at symud Cynllun Eryri yn ei flaen ac i sicrhau bod cynllunio priodol ar gyfer etifeddiaeth yn digwydd.

- I gefnogi mwy o gydnerthedd dylai'r Awdurdod ystyried sut a phryd i adael i swyddogion gael profiadau newydd mewn gwasanaethau a thimau ehangach i feithrin sgiliau, gwybodaeth a chapasiti.

- 5.1.1 Mae peilot wedi ei sefydlu ar gyfer gweithio cyfunol. Fodd bynnag, yn sgil cyngor Llywodraeth Cymru i barhau i weithio o adref os yn bosibl, penderfynwyd peidio gweithredu arno am y tro, cadarnhawyd bydd ail afael ar y peilot unwaith bydd y cyngor i weithio o adref yn newid.
- 5.1.2 Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn Nhachwedd 2020 "... i adolygu sut mae'r Awdurdod yn gweithredu ei fusnes swyddogol a'r gallu i barhau gyda chyfarfodydd o bell...". Yn dilyn hyn derbyniwyd adroddiad Archwilio Cymru yn ogystal â chais gan Lywodraeth Cymru i adolygu rhai materion llywodraethu. Adnabuwyd amcanion ar gyfer Adolygiad Llywodraethol sef adolygu'r ardaloedd penodol o lywodraethu â amlygwyd yn adroddiad Archwilio Cymru, sicrhau cysondeb gyda fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ddiweddaraf, yn ogystal â gweithredu yn erbyn yr hyn a ofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cymru. Trafodwyd cwmplas yr adolygiad yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr 17eg Tachwedd 2021 a chytunwyd i drafod y pynciau sydd angen sylw mewn cyfarfodydd fydd yn cael eu trefnu ar gyfer y misoedd nesaf. Bwriedir cyflwyno'r adroddiad i'r Gweithgor Aelodau ar 6ed Ebrill 2022 ac yn derfynol i'r Awdurdod ar y 18fed Mai 2022 (cyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022).
- 5.1.3 Mae gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer yr wythnosau nesaf i addasu'r Pecyn Cymorth Rheoli Prosiect ('Toolkit Rheoli Prosiect') fel bod cyfeiriad cryfach tuag at amcanion Cynllun Eryri. Bwriedir ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli yn eu cyfarfod ar y 6ed Rhagfyr 2021.
- 5.1.4 Mae sawl cynllun i swyddogion gael profiadau newydd mewn gwasanaethau a thimau ehangach er mwyn meithrin sgiliau, gwybodaeth a chapasiti e.e. secondiadau, honorariwm, Cynllun Gwirfoddoli Staff, Grwpiau 'Peer', cyfleoedd i gyfrannu ar fyrddau allanol a.y.b. Dylid nodi bod gan APCE bryderon o ran penodi a chadw staff, ac mae hyn eisoes wedi ei adnabod a'i drafod yng nghyfarfod Gweithgor Aelodau 30ain Mehefin 2021.

5.2 'Adolygiad o Gyfranogiad - APCE'

Yn 2019-20 cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o ddull a rheolaeth yr Awdurdod o ran cynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisi, ac wrth gynllunio gweithgareddau.

- 5.2.1 Yn sgil yr adroddiad derbyniwyd hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio i nodi cryfderau a gwendidau ei ddull gweithredu presennol o ran cyfranogi; "Disgwyliwn i'r Awdurdod ddefnyddio'r offeryn hwn i werthuso ei berfformiad cyfredol ac i nodi sut y gall wella ei waith." Trafodwyd yr adroddiad yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 20fed Mai 2020. Mae bwriad i'r Tîm Rheoli drafod y mater cyn diwedd Ionawr 2022 er mwyn dod i benderfyniad, gan nad oedd yn benderfyniad ffurfiol yr Awdurdod.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Trefnu cyfarfodydd o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Rhagfyr 2021, Ionawr a Chwefror 2022 er mwyn trafod y pynciau sydd angen sylw mewn perthynas â'r Adolygiad Llywodraethu.**
- **Trefnu cyfarfod o'r Tîm Rheoli cyn diwedd Ionawr 2022 er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen gyda'r hunanasesiad a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru fel rhan o archwiliad 'Adolygiad o Gyfranogiad - APCE'.**

TREFNIADAU TENDRO

1. Cefndir

1.1 Yn ôl y Gorchmynion Sefydlog 2013 ar gyfer contractau, dylai contractwyr ar gyfer caffaeliadau gwerth £25,000 neu fwy gael eu dethol gan y Cyfarwyddwr priodol trwy gyfrwng un o'r dulliau canlynol: (i) Tendro dewisol ad-hoc (ii) Tendro dewisol gan contractwyr cymeradwy neu (iii) Tendro cystadleuol agored trwy gyfrwng hysbyseb. Mae'n rhaid gwahodd o leiaf tri tendr ysgrifenedig, ac mae angen i'r tendrau gael eu hagor ym mhresenoldeb o leiaf dau weithiwr.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn y gwerth gorau wrth weinyddu a gwobrwyo tendrau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu sampl o dendrau diweddar gan sicrhau bod y trefniadau hysbysu, sgorio a gwobrwyo, yn ogystal â'r taliadau a wneir yn briodol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod dogfen Gorchmynion Sefydlog 2013 ar gyfer contractau, yn mynegi'r trefniadau a'r trothwyon gwerthoedd ar gyfer mynd i dendr. Mae Adroddiad Gwella Blynnyddol 2017-18 APCE yn nodi ei fod yn glir o'r gwaith samplu bod rhai o'r strategaethau caffael wedi dyddio. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gofyn i gwmni cyfreithiol edrych a diweddar y ddogfen er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r gofynion sydd ar y gorwel gan Lywodraeth Cymru.

5.2 Fe wiriwyd sampl o bedwar prosiect aeth i dendr, a gwelwyd bod dogfen briffio manwl ar gyfer pob un o'r sampl gan gynnwys briff llawn a chlir o'r hyn sydd yn dymuno ei gaffael. Roedd dyddiad cau wedi ei gyflwyno ar pob dogfen a matrices sgorio wedi ei gynnwys ym mhob achlysur.

- 5.3 Gwelwyd bod niferoedd rhesymol o gyflenwyr wedi ceisio am bob tendr, bod yr holl ddogfennau tendr wedi eu derbyn cyn dyddiad cau y prosiectau a bod y dull sgorio ar gyfer y 4 prosiect yn unol â'r hysbysiad tendro.
- 5.4 Er mai dim ond ar gyfer un prosiect yn unig o'r sampl gofynnwyd am dystlythyrau, gwelwyd bod digon o dystiolaeth yn cael ei gyflwyno gan y cwmnïoedd i'r rheolwyr deimlo'n hyderus yn eu gallu. Gwelwyd enghreifftiau o waith blaenorol, tystiolaeth o brofiad perthnasol yn y maes a gallu'r cwmni i gyflawni'r gwaith o fewn dyddiad y cytundeb.
- 5.5 Darganfuwyd nad oedd pob swyddog yn gyfarwydd gyda'r broses o sgorio tendrau a bod hynny oherwydd diffyg hyfforddiant priodol yn y maes. Yn sgil cyhoeddi'r adroddiad drafft, mae'r mater yma wedi ei drafod ar lefel uchel gyda chydnyddiaeth bod lle i wella gyda ymrwymiad i adnabod anghenion hyfforddiant swyddogion.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod y cwmni cyfreithiol Geldards yn diweddar y cynllun er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau ar ôl gadael yr EU.**
- **Sicrhau bod anghenion hyfforddiant yn cael eu hadnabod.**

RHEOLI ABSENOLDEBAU A LLESIANT STAFF

1. Cefndir

1.1 Mae swyddogion yr Awdurdod wedi bod yn gweithio o bell ers cychwyn y pandemig yn 2020 h.y. "yr arfer o weithiwr cyflogedig yn gweithio yn ei gartref, neu mewn rhywle arall nad yw'n fan busnes arferol sefydliad". Mae manteision i weithio o bell megis hyblygrwydd, arbed amser a chostau teithio ond hefyd gellir arwain at anfanteision megis colli cysylltiad gyda chydweithwyr, unigedd a diffyg rheolaeth dros yr amgylchedd gwaith.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli absenoldebau gweithwyr yr Awdurdod yn sgil y cynnydd mewn gweithio o adref, gan hefyd sicrhau bod cefnogaeth briodol iddynt er mwyn diogelu eu lles. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygiad lefel uchel o bolisiâu a chanllawiau, ystadegau a chofnodion cyfarfodydd yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda'r swyddogion perthnasol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Yn sgil pandemig COVID-19, bu raid i'r Awdurdod addasu ei drefniadau gweithio er mwyn cydymffurfio â chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Y prif addasiad oedd y symud i weithio o adref, arferiad sy'n parhau ar amser yr archwiliad, ac felly mae angen trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli'n effeithlon.

4.1.1 I gefnogi'r gweithio o adref, ac i gynorthwyo amgylchiadau personol staff, caniatwyd i'r gweithlu weithio oriau mwy hyblyg h.y. ddim yn gorfod gweithio yn ystod oriau craidd ond yn hytrach rhywbryd yn ystod y dydd fel mae'n gyfleus. Yn ogystal, caniatwyd i staff gario hyd at 10 diwrnod o wyliau blynyddol i'w blwyddyn gwyliau nesaf. Nid yw'r telerau gwaith nac ychwaith lleoliad gwaith swyddogol staff wedi cael eu haddasu, ond mae canllaw 'Rheoli Presenoldeb ac Absenoldeb Sy'n Berthnasol i'r Polisi A'r Weithdrefn Salwch' a'r weithdrefn gwella perfformiad yn parhau yn berthnasol.

4.1.2 Rhannwyd holiadur dychwelyd i'r gwaith (cyfnod clo 1) gyda holl staff yr Awdurdod ym mis Mehefin 2020. Serch hyn, parhaodd yr angen i staff weithio o adref, a gwnaethpwyd cydnabyddiaeth o'r angen i gefnogi a bod yn wylriadwrus o les staff yng nghyfarfod o'r Tîm Rheoli ym Medi 2020. Paratowyd canllawiau ynglŷn â threfniadau gwaith a holwyd staff os oeddynt angen unrhyw gyfarpar.

- 4.1.3 Cynhaliwyd cyfarfod gyda holl staff yr Awdurdod ym mis Mawrth 2021. Roedd yn gyfle i gysylltu gyda staff, i ddiolch am eu hymdrechion ac i gydnabod yr heriau cyn i reolau pellhau lacio yn ystod Haf 2021. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn Llesiant Iechyd Meddwl. Mae ymdrechion yn parhau i gadw cyswllt yn yr Awdurdod, gyda'r Prif Weithredwr yn cyfarfod pob pythefnos gyda'r penaethiaid gwasanaeth, sydd yna yn mynd ymlaen i gynnal cyfarfodydd gyda'u timau. Mae hyn yn caniatáu i wybodaeth a negeseuon lifo ddwy ffordd.
- 4.1.4 Rhannwyd yr arolwg 'Gweithio yn y Dyfodol' gyda staff ym mis Ebrill 2021 er mwyn derbyn eu mewnbwn ynglŷn â ble fyddent am weithio dros dro hyd at amser pan fydd y sefyllfa yn fwy sefydlog, a chyflwynwyd y syniad o weithio cyfunol. Trafodwyd canlyniadau'r arolwg yng nghyfarfod y Tîm Rheoli ym mis Mai 2021. Nodwyd bod y rhan fwyaf o staff eisiau ymgymryd â gweithio cyfunol, gan nodi bod gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac roedd gwerthfawrogiad o'r hyblygrwydd mae staff wedi ei dderbyn. Fodd bynnag, codwyd pryderon megis diffyg lle priodol i weithio gartref, yr effaith ar lesiant o beidio dod i mewn i'r swyddfa ac yn syml mae rhai prosesau'n gweithio'n well yn y swyddfa.
- 4.1.5 Cynlluniwyd i beilota system gweithio gyfunol yn sgil yr holiaduron lle'r oedd hyblygrwydd i weithio hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos o adref a'r gweddill o'r swyddfa gyda'r bwriad o adolygu'r drefn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23. Fodd bynnag, yn ystod yr archwiliad mewnol 'APCE - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol', cadarnhawyd yn sgil cyngor Llywodraeth Cymru i barhau i weithio o adref os yn bosibl, a phenderfynwyd peidio gweithredu ar y cynllun peilot am y tro, a bydd ail afael arno unwaith bydd y cyngor i weithio o adref yn newid.
- 4.1.6 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y nifer o absenoldebau salwch a gofnodwyd gan yr Awdurdod yn 2020/21 i gymharu gyda'r blynyddoedd cynt, gweler y tabl isod:

Cyfanswm Dyddiau Absenoldeb Salwch				
2020/21	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17
396	1340	1011	876	925

- Mae dadansoddiad ehangach ar gael yn adroddiad 'Absenoldebau Staff' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, dyddiedig 14^{eg} o Orffennaf 2021.
- 4.1.7 Bu i'r Pennaeth Personél ymddeol ym mis Rhagfyr 2021 ac nid yw'r rôl wedi ei llenwi hyd yma serch ymdrechion yr Awdurdod. Bydd y swydd yn cael ei ail hysbysebu maes o law. Yn y cyfamser mae cytundeb lefel gwasanaeth mewn lle gyda Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd i'w cynghori ar faterion fel yr angen, gan gynnwys gweithredu polisïau adnoddau dynol APCE, materion yn ymwneud a chyflogaeth staff a.y.b. Mae'r cytundeb yma mewn lle hyd at 31^{ain} o Fawrth 2022.
- 4.1.8 Mae'r gofrestr risg yn cyfeirio at y risg 'Gwynwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol', un o'r mesurau sydd wedi ei nodi ar gyfer lliniaru'r risg yma ydi "datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle." Nid oes unrhyw waith wedi ei wneud hyd yma ond nodwyd y byddai'n un o brif dasgau'r Pennaeth Personél newydd yn dilyn ei benodiad/phenodiad.
- 4.1.9 Noder fod lefel sicrwydd yr archwiliad yn uchel, mae hyn yn ddibynnol ar benodiad Pennaeth Personél yn y dyfodol agos. Mae risg yn parhau i fodoli hyd y penodiad yma, yn y cyfamser mae rheolaeth cydadfer mewn lle gyda chytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd.

CYNLLUN PARHAD GWASANAETH

1. Cefndir

1.1 Mae cynllun parhad gwasanaeth yn broses cynllunio rhagweithiol sy'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau critigol yn parhau i gael eu darparu yn ystod argyfwng. Maent yn manylu ar gynlluniau a gweithrediadau sy'n sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu gadael heb wasanaeth maent yn ddibynnol arno mewn achosion ble fydd amhariad sylweddol annisgwyl neu fethiant llwyr i ddarparu'r gwasanaeth.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan yr Awdurdod drefniadau addas mewn lle i barhau i ddarparu gwasanaeth yn ystod cyfnod o argyfwng. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu trefniadau parhad busnes, gan gynnwys trefniadau rheoli, gwersi a ddysgwyd, log risgiau, hyfforddi a monitro.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	0
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Fe wiriwyd y cynllun parhad gwasanaeth Corfforaethol yn ogystal â Chynlluniau Parhad Gwasanaeth Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch. Nodir o fewn y tri cynllun y byddent yn cael eu hadolygu yn flynyddol neu'n gynt os bu unrhyw newid sylweddol yn y busnes. Fodd bynnag, dengys dyddiadau adolygu diwethaf y cynlluniau nad oeddynt wedi cael eu hadolygu ers cyn cyfnod pandemig COVID-19.

5.1.1 Disgwylir i'r holl staff sydd wedi eu rhestru yn y cynlluniau fod yn ymwybodol a chyfarwydd â'r cynlluniau, a gyda mynediad atynt pe byddai angen. Darganfuwyd bod pawb sydd ar restr dosbarthu'r cynllun ar gyfer y Brif Swyddfa gyda copi papur o'r cynllun a bod copi papur yn cael ei gadw mewn cwpwrdd dan glo yn y storfa ym Mhenrhyndeudraeth, yn ogystal a chopi ar fewnrwyd y staff. Mae copi caled o gynllun yr Ysgwrn ar gael mewn ffeil yn swyddfa'r Ysgwrn. Roedd swyddogion ym Mhlas Tan y Bwlch yn ymwybodol o'r ddogfen Cynllun Parhad ond ddim yn saff iawn o'i leoliad.

- 5.1.2 Nid oedd staff yr Ysgwrn wedi derbyn hyfforddiant ar y cynllun ers 2019, ac nid oedd staff ym Mhlas Tan y Bwlch wedi derbyn hyfforddiant ar gynnwys y cynllun. Er bod staff ar gyfer y Brif Swyddfa yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelwch tân yn rheolaidd, a'r staff gweinyddol wedi derbyn hyfforddiant a chanllawiau ar sut i ymdrin â llythyr/parseli amheus yn y post, galwadau ffôn sy'n bygwth ffrwydrad ayb, credir bod angen i holl staff allweddol fynychu hyfforddiant parhad gwasanaeth, a Penaethiaid i hyfforddi eu staff ar gynnwys eu cynlluniau i sicrhau gallent ymateb i argyfwng yn effeithiol.
- 5.1.3 Mae manylion cyswllt staff yn allweddol i lwyddiant mewn achos ble bydd angen gweithredu cynllun parhad busnes. Fe wiriwyd y tri cynllun a gwelwyd bod 'Rhestr Cyswllt' wedi ei gynnwys yn y tri, sydd yn cynnwys enwau swyddogion, rhifau ffon a cysylltiadau allanol. Gan nad yw'r cynlluniau wedi cael eu diweddarau ers 2018, mae risg bod yr wybodaeth yma yn anghyfredol ac angen eu diweddarau.
- 5.1.4 Mae'r Adroddiad Archwilio Cymru, 'Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri', Ebrill 2021 yn mynegi "Fe waeth yr Awdurdod yn dda i gynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig, ond mae angen iddo ddysgu gwersi ar lefel gorfforaethol i helpu i hybu cydnerthedd". "Cafodd y cynllun parhad busnes ar gyfer Yr Ysgwrn ei ddisgrifio fel canllaw defnyddiol iawn i ymateb pan darodd y pandemig", ond mewn perthynas a'r cynllun corfforaethol, "Ni ddarparodd ddigon o fanylder a chwmpas i helpu'r Awdurdod i ymateb i'r heriau yr oedd yn eu hwynebu". Gwelwyd nad oedd yr Awdurdod wedi ymateb i'r sylwad yma gan nad oedd unrhyw weithrediad pellach ynglŷn a hyn.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau caiff cynlluniau parhad busnes eu hadolygu a'u diweddarau yn reolaidd.
- Sicrhau bod manylion cyswllt yn gyfredol ac yn cael eu diweddarau gan gynnwys enwau, teitl swyddi a rhifau ffon.
- Sicrhau bod holl staff sydd wedi eu rhestru yn y cynlluniau yn ymwybodol ac yn gyfarwydd a'r cynlluniau a gyda mynediad atynt pe byddai angen.
- Staff allweddol yn mynychu hyfforddiant parhad gwasanaeth a Penaethiaid i hyfforddi eu staff ar gynnwys eu cynlluniau.
- Sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu ar hyn fynegwyd yn adroddiad Archwilio Cymru, 'Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri', Ebrill 2021 ar gynllun yr Ysgwrn.

EITEM RHIF 8

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	13eg Gorffennaf 2022
TEITL	ADRODDIAD ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2021/22
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad.ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol.iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.

1. CYD-DESTUN

- 1.1 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau am 2022/23 yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi llwyddo i gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol gyda than-wariant net o £516,324, (gweler Atodiad 2). Mae'r gwarged yma yn deillio yn bennaf o incwm ychwanegol i'r disgwyl wedi ei dderbyn o'r maesydd parcio, wedi tymor eithriadol o brysur.
- 1.2 Mae estyniad amser wedi ei ganiatau eto eleni ar gyfer cwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon blynyddol. Felly, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2021/22 (a throsglwyddiadau ariannol perthnasol), fel rhan o'r drefn cynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (sydd i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid erbyn 31 Awst, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod erbyn 30 Tachwedd 2022).
- 1.3 Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon (rhwng rŵan a 31/8/2022) a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad (rhwng rŵan a 31/11/2022). Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

2 GRANTIAU A DDERBYNIWYD YN 2021/22

- 2.3 Ym mis Rhagfyr 2020, cawsom wybod byddai cynydd o 10% yng nghyllid grant sylfaenol y Parc Cenedlaethol gan Llywodraeth Cymru am 2021/22, odd yn golygu cyllid ychwanegol o £374,526, yn ogystal a £124,840 o lefi awdurdodau cyfansoddol.

Yn ystod y flwyddyn dyrannwyd cyfanswm o £1,238,885 o arian grantiau “un tro” ychwanegol i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn

£70,000 grant refeniw sylfaenol ychwanegol

£900,000 grant cyfalaf Tiroedd Cynaliadwy Lleoledd Cynaliadwy

£970,000

Mae'r ddau grant uchod wedi eu dynodi ar gyfer 2021/22 felly fe ddelir eu gweddill yng nghronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.

- 2.4 Yn ogystal i'r uchod derbyniodd yr Awdurdod grantiau cymorth yn sgîl effaith y pandemig fel a ganlyn :

£242,579	grant cronfa caledi Llywodraeth Cymru
<u>£26,306</u>	grant cymorth “seibiant swydd” trwy'r HMRC
<u>£268,885</u>	

3. AMLINELLIAD O SEFYLLFA DERFYNOL Y CYFRIFON

- 3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a'r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2021/22
- 3.2 Cyfanswm gwariant net y flwyddyn oedd £4,804,228 sef £3,297,226 o dan y gyllideb net ddiwygiedig o £8,101,033. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys effaith swm sylweddol o grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gros ar gyfer y flwyddyn oedd £1,679,923.
- 3.3 Roedd £3,297,226 o falansau ar gael cyn trosglwyddiadau net gwerth £2,505,987 i gronfeydd penodol wrth gefn, a hefyd fod llithriadau ac ymrwymadau (i 2022/23) o rai o ddyraniadau cyllideb 2021/22 gwerth £274,833. Mae hyn yn dod â'r balans sy'n weddill ar gael i'w ail-glustnodi i **£516,324**.

4. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2021/22

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosgl	Cyllideb Net Ddiwygiedid	Gwir Wariant	Dan/(Dros)
	£	£	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,545,500	74,767	1,620,267	1,043,627	576,640
Corfforaethol	5,064,911	269,323	5,334,234	3,855,382	1,478,852
Balansau	10,000	- 10,000	-		-
			-		-
Llog a Ennillwyd	- 8,000	-	- 8,000	- 11,612	3,612
Ariannu Cyfalaf o refeniw	1,636,048	109,955	1,746,003	507,881	1,238,122
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050		- 591,050	- 591,050	-
CYFANSWM	7,657,409	444,045	8,101,454	4,804,228	3,297,226

4.1 Cyllideb Net ar gyfer 2021/22

Mae'r awdurdod eisioes wedi ei hysbysu o'r cynnydd yn y gyllideb refeniw sylfaenol net.

Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod ym Mawrth a'r rhai sydd wedi'u gweithredu ers hynny.

4.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £3,297,226 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir crynodeb o'r dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2020/21			3,297,226
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	112,510		
Corfforaethol	116,592	229,102	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	-1,606,519		
Corfforaethol	-1,128,601	-2,735,120	-2,506,018
Llithriant a Chostau Eraill (gweler Atodiad 4)	-274,884		-274,884
Balans ar gael i'w ailddyrrannu			516,324

4.3 Alldro Adrannol

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 4.2 eisioes.

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth ar ôl cymryd yr eitemau wedi'u neilltuo a'r rhai penodol a ddygwyd ymlaen o fewn cyllideb 2021/22 i ystyriaeth:

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Ddiwygiedid	Gwir Wariant	Dan/(Dros)	Ymrwymiad	Dan/(Dros)
	£	£	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,620,267	1,043,627	576,640	567,997	8,643
Corfforaethol	5,334,234	3,855,382	1,478,852	981,617	497,235
Balansau	-	-	-	-	-
	6,954,501	4,899,009	2,055,492	1,549,614	505,878
Llog a Ennillwyd	- 8,000	- 11,612	3,612		3,612
Ariannu Cyfalaf o reffeniw	1,746,003	507,881	1,238,122	1,231,294	6,828
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050	- 591,050	-		
CYFANSWM	8,101,454	4,804,228	3,297,226	2,780,908	516,324

Cyfanswm yr incwm ychwanegol a'r tanwariant, ar ôl cymryd i ystyriaeth y trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn, oedd **£516,324**.

4.4 Dadansoddiad Manwl

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymladau ar gyfer 2021/22 yn Atodiad 2.

4.5 Amrywiadau Sylweddol

Y gwasanaethau ag amrywiadau dros £10,000, yn y ffigwr £516,324 sy'n gyfuniad o incwm ychwanegol net a thanwariant yw:

Cefnogaeth Awdurdod - £13,080 o ganlyniad arbedion costau teithio

Cyfieithu - £22,881 o dan-wariant yn deillio o ddefnydd cyfieithwyr allanol.

Plas Tan y Bwlch – £77,272 o or-wariant. Mae'r prif or-wariannau ar gyflogaeth, costau ynni a chomisiwn booking.com. Bydd adlewyrchiad gwell yn 2022/23 o broffil ariannol y gwasanaeth, ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau parthed ffrydiau incwm newydd.

Ymgysylltu – tanwariant o oddeutu £18,000 oherwydd oedi ar waith Hafod Eryri ac felly y gwaith ymgysylltu cysylltiedig, ynghyd a tanwariant ar ddatblygiadau cynnwys gwefan newydd

Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr – Oddeutu £480,138 yn fwy o incwm wedi ei dderbyn yn ystod y flwyddyn o ganlyniad blwyddyn anarferol o brysur.

4.6 Newidiadau ers yr adroddwyd yn flaenorol

'Roedd yr adroddiad diwethaf ar y gyllideb a roddwyd gerbron yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022 yn nodi alldro tebygol o warged o £100,000 i gymharu gyda'r gwir alldro o warged o £516,324.

Y prif reswm am y gwahaniaeth ydy lefel incwm maesydd parcio. Nodwyd yn flaenorol bod bwriad i gadw unrhyw warged ar gyfer costau cyfalaf o dan ystyriaeth. Gan fod y swm yn sylweddol uwch na'r disgwyl, rydym yn cynnwys y swm yma yn yr adroddiad ar gyfer eich ystyriaeth.

5. ALLDRO CYFALAF 2021/22

5.1 Mae manylion y gyllideb Gyfalaf, alldro a ffynonellau ariannu yn ymddangos yn y crynodeb isod ac Atodiad 5:

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheolaeth Tir	1,071,850	891,374	-680,691	861,167	859,666	1,501
Corfforaethol	674,153	782,059	-484,862	376,956	371,622	5,328
Cyfanswm	1,746,003	1,673,433	-1,165,552	1,238,123	1,231,288	6,829

5.2 Mae'r gyllideb net ddiwygiedig o £1,746,003 a'r gwariant net o £507,880 yn gadael £1,238,123. Ar ôl ystyried gwariant ymrwymedig a gariwyd trosodd i 2022/23 ynghyd ag eitemau wedi'u neilltuo'n benodol (£1,231,288), mae'n gadael tanwariant o £6,829.

5.3 Gweler atodiad 5 am fwy o fanylder ynglŷn a'r ffigwr ymrwymedig £1,231,288.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN

6.1 Gweler isod grynodedb o'r cronfeydd defnyddiadwy gyda'u balansau cyfredol. Dylid nodi fod cyfran sylweddol o'r isod yn cynrychioli symiau sydd eisioes wedi eu ymrwymo at ddibenion penodol.

Enw'r Gronfa	Balans 31/03/2021	Symudiad	Balans 31/03/2022
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	163,791	-	163,791
Cronfa Adran 106	294,844	162,387	457,231
Cronfa Grantiau Refeniw	2,108,647	(366,006)	1,742,641
Grantiau Cyfalaf dderbyniwyd ymlaen llaw	2,369,716	(274,669)	2,095,047
Cronfa Rheoli Asedau	444,658	473,060	917,718
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus	225,000	-	225,000
Cronfa Arian Cyfatebol	1,073,890	(82,492)	991,398
Cronfa Arian Gariwyd Drosodd	555,961	274,833	830,794
Cronfa Prosiectau	503,574	432,783	936,357
Cronfa Is-adeiledd yr Wyddfa	56,303	-	56,303
Cronfa Risgiau Penodol	424,160	-	424,160
Cronfa Gwytnwch Staff	120,000	-	120,000
Cronfa Risgiau Masnachol	100,000	-	100,000
Cronfa Gyffredinol	669,473	44,324	713,797
	9,110,017	664,220	9,774,237

6.2 Clustnodi Balans a Tanwariant ac Incwm Ychwanegol

Mae balans o £516,324 o danwariant ac incwm ychwanegol o 2021/22 ar gael i'w ail-glustnodi ar sail un-tro. Argymhellir trosglwyddo incwm ychwanegol sydd yn deillio o incwm maesydd parcio (£480,000) i gronfa rheoli asedau heb ymrwymiad penodol ar hyn o bryd. Bydd y gweddill (£44,324) yn cael ei ychwanegu at gronfa Balansau Cyffredinol yr Awdurdod.

6.3 Dadansoddiad o'r Cronfeydd

Isod mae dadansoddiad o'r prif symudiadau o fewn y cronfeydd. Gweler Atodiad 6 am ddisgysifiad a phwrpas pob cronfa.

Cronfa Adran 106

Bu cynnydd o £162,237 yn y gronfa yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd £198,000 mewn symiau cymudo, a defnyddiwyd £36,000 drwy grant i Gyngor Conwy

Cronfa Grantiau Refeniw

Mae'r gronfa hon yn dal balans grantiau refeniw sydd heb eu defnyddio, derbyniwyd yn y flwyddyn ariannol ac yn cael eu hadnabod fel incwm yn y flwyddyn ariannol honno, ond eu trosglwyddo i gronfa ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Bu gostyngiad net o £366,006 yn ystod y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Cyfalaf

Mae'r gronfa hon wedi ei chreu ar yr un cyswllt a'r Gronfa Grantiau Refeniw. Yn ystod 2021/22 defnyddiwyd a derbyniwyd grantiau yn golygu gostyngiad net o £274,833 yn y gronfa.

Cronfa Rheoli Asedau

Bu cynnydd o £473,000 ym malans y gronfa yn 2021/22. Mae incwm ychwanegol £480,000 wedi cael eu symyd i'r gronfa wrth gefn hon. Bu hefyd rhywfaint o ddefnydd o'r gronfa yn ystod y flwyddyn.

Cronfa Arian Cyfatebol

Yn ystod y flwyddyn bu defnydd ac ychwanegu yn golygu cynnydd net o £82,492

Cronfa Arian Gariwyd Drosodd

Bu cynnydd o £274,833 yn 2021/22. Gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion.

Balansau Cyffredinol

Ychwanegir gwarged alldro 2021/22 i'r balansau cyffredinol, sef £44,324, sy'n dod a'r balans cyffredol i £713,797.

7. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD

- 7.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth dros £30,000 rhwng cyllidebau, fel a ganlyn :

Swm	Cymeradwyaeth y Trosglwyddiad
£30,000 - £100,000	Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd. Trosglwyddiad i'w adrodd i'r Awdurdod nesaf er gwybodaeth yn unig.
£100,000 neu fwy	Penderfyniad Awdurdod

- 7.2 Ni fuodd unrhyw drosglwyddiad o'r fath ers yr adroddiad diwethaf ar gyllideb 2021/22 ym Mawrth 2022

8. ARGYMHELLION

- 8.1 **Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel ag amlinellwyd yn rhan 4 (manyion yn Atodiad 1) .**
- 8.2 **Cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac ohonynt fel yr amlinellwyd yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
- 8.3 **Cymeradwyo'r trosglwyddiad o incwm ychwanegol yn deillio o'r maesydd parcio a chyfleusterau ymwelwyr i'r Gronfa Rheoli Asedau.**
- 8.4 **Nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol (paragraff 4.3 i 4.7 ac Atodiad 2)**
- 8.5 **Cymeradwyo'r llithriadau ac ymrwymadau (£274,833) sy'n Atodiad 4.**
- 8.6 **Nodi bydd tanwariant y flwyddyn ariannol 2021/22 yn cynyddu'r Balansau Cyffredinol.**
- 8.7 **Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

				Atodiad 1
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2021/2022 ar 31 Mawrth 2022				
	Cyllideb Sylfaenol £	Trosogl. cynt £	Trosogl. newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR				
Coedwigwyr SLSP (96)	-	20,966	-	20,966
CadwraethCoed&Am	418,210	-	6,200	385,435
Ysgwrn	94,190	-	-	94,190
Awyr Dywyll	47,800	-	-	47,800
ENRaW	-	-	12,950	12,950
MawndirCymru(grant)	45,190	10	-	45,200
NG-Maentwrog (Dw)	91,160	31,959	-	123,119
NG - MaentwrogGorlle	-	25,411	-	25,411
LIFE-CoedwigCeltaidd	74,860	-	-	74,860
AmgylcheddAdeiliedig	70,480	-	-	66,480
MTT Dolgellau	22,510	-	-	22,510
Harlech ac Arudwy	61,110	-	-	61,110
Archaeoleg	60,340	2,746	-	63,086
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR	534,650	24,250	-	558,900
Carneddau	25,000	-	6,750	18,250
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	1,545,500	74,767	0	1,620,267
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	103,510	4,000	0	107,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	84,810	0	0	84,810
Rheolaeth Gorfforaethol	1,104,401	47,578	0	1,151,979
Eiddo	259,330	0	0	259,330
Cyfreithiol	52,290	0	0	52,290
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	219,170	-10,000	0	209,170
Cyfieithu	110,780	0	0	110,780
Personel a Hyfforddiant	108,250	0	0	108,250
Pencadlys	222,410	0	0	222,410
Systemau Gwybodaeth	318,780	16,350	0	335,130
Cyllid	167,570	24,000	0	191,570
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	286,450	-240	0	286,210
Ymgysylltu	456,200	79,365	0	535,565
Safle Gwe Newydd	42,760	26,690	0	69,450
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant L.I.C.)	20,010	0	0	20,010
Llwybrau Llesiant (grant L.I.C.)	40,000	0	0	40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	280,330	91,746	0	372,076
Canolfannau Gwybodaeth	143,380	-10,170	0	133,210
Llyn Tegid	-19,940	0	0	-19,940
Meysydd Parcio	-423,580	0	0	-423,580
Cllirio Ysbwriel	19,510	0	0	19,510
Traffig a Chludiant	5,000	0	0	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	280,720	0	0	280,720
Mynediad Cyhoeddus	111,730	0	0	111,730
Tim Y Wyddfa	305,120	0	0	305,120
Wardeniaid - Cyffredinol	267,660	4	0	267,664
Wardeniaid - Gogledd	258,400	0	0	258,400
Wardeniaid - De	239,860	0	0	239,860
	5,064,911	269,323	0	5,334,234
BALANSAU	10,000	-10,000	0	0
CYFANSWM	6,620,411	334,090	0	6,954,501
Llog a Enillwyd	-8,000	0	0	-8,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	1,636,048	114,534	-	1,750,582
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-591,050	0	0	-591,050
	7,657,409	448,624	0	8,106,033
WEDI EI ARIANNU O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			1,373,262
Tros o'r cronfeydd wrth gefn	2,164,358	448,624		2,612,982
Cyllideb Net	7,657,409			8,101,454

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefyllfa Refeniw Derfynol 2021-22 ar 31 Mawrth 2022**

	Cyllideb Net ddiwygiedig	Gwir Wariant	Wedi'i Neilltuo	Gwariant O dan/ (Trosodd)
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR				
Coedwigwyr SLSP	20,966	19,208	0	1,758
Coed Cadw		-18,226	18,226	0
Cadwraeth Coed & Amaeth	385,435	303,923	68,102	13,410
Ysgwrn	94,190	103,626	0	-9,436
Awyr Dywyll	47,800	40,554	7,246	0
ENRaW	12,950	-1,503	14,453	0
MawndirCymru(grant)	45,200	51,216	0	-6,016
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Dwyrain)	123,119	6,885	116,234	0
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Gorllewin)	25,411	500	24,911	0
LIFE-CoedwigCeltaidd	74,860	22,527	52,333	0
Treftadaeth Diwylliannol	66,480	32,899	18,428	15,153
Treftadaeth Dolgellau	22,510	28,736		-6,226
Harlech ac Ardudwy	61,110	39,227	21,883	0
Archaeoleg	63,086	42,040	21,046	0
Cynllunio	558,900	325,855	233,045	0
Carneddau	18,250	46,160	-27,910	0
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	1,620,267	1,043,627	567,997	8,643
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	107,510	105,915	0	1,595
Cefnogaeth yr Awdurdod	84,810	71,730	0	13,080
Rheolaeth Corfforaethol	1,151,979	563,981	578,542	9,456
Eiddo	259,330	273,956	0	-14,626
Cyfreithiol	52,290	44,068	0	8,222
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	209,170	199,599	0	9,571
Cyfieithu	110,780	87,899	0	22,881
Personel a Hyfforddiant	108,250	98,967	0	9,283
Pencadlys	222,410	208,904	0	13,506
Systemau Gwybodaeth	335,130	327,213	0	7,917
Cyllid	191,570	196,478	0	-4,908
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	286,210	363,482	0	-77,272
Ymgysylltu	535,565	455,435	61,300	18,830
Safle Gwe Newydd	69,450	43,710	25,740	0
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant LI.C.)	20,010	0	20,010	0
Llwybrau Llesiant (grant LI.C.)	40,000	0	40,000	0
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	372,076	189,379	164,780	17,917
Canolfannau Gwybodaeth	133,210	163,400	0	-30,190
Llyn Tegid	-19,940	-68,990	0	49,050
Meysydd Parcio	-423,580	-847,979	0	424,399

Clirio Sbwriel	22,922	22,922	0	0
Traffig a Chludiant	5,000	0	0	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	277,308	248,618	22,000	6,690
Mynediad Cyhoeddus	101,746	100,273	0	1,473
Tim Y Wyddfa	283,412	261,380	20,000	2,032
Wardeniaid - Cyffredinol	289,372	289,372		0
Wardeniaid - Gogledd	258,400	205,826	49,245	3,329
Wardeniaid - De	249,844	249,844		0
	5,334,234	3,855,382	981,617	497,235
BALANSAU	0	0	0	0
	6,954,501	4,899,009	1,549,614	505,878
CYFANSWM				
Llog a Enillwyd	-8,000	-11,612		3,612
Cyllido Cyfalaf o Refeniw	1,746,003	507,881	1,231,294	6,834
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-591,050	-591,050		0
	8,101,454	4,804,228	2,780,908	516,324
WEDI'I ARIANNU O				
Grant y Parc Cenedlaethol	4,189,789			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,373,262			
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	2,538,403			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	8,101,454			

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2021/22			3,297,226
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Ffridd Uchaf (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	27,021		
Mynediad (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	8,334		
Bwlch Brithdir	49,245		
Carneddau	27,910		
		112,510	
Corfforaethol			
Dathlu 70 (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	18,077		
Tramper (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	6,680		
Safle Gwe (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	80,611		
Gwresogi HQ (Grant SLSP)	11,224		
		116,592	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Treftadaeth Diwylliannol	167,469		
Cynllun Treftadaeth Dolgellau	136,345		
LiDAR (Grant Cyfalaf LI.C)	17,590		
Llwybrau Carneddau (Grant LI.C)	32,500		
Betws y Coed (Grant Cyfalaf LI.C)	72,807		
Arsyllfa Symudol (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	10,251		
Penmaenpool - Brithdir (Grant LI.Cymru)	25,000		
Llyn Cynwch (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	30,000		
Brithdir (grant LI.Cymru)	40,000		
Harlech (Grant Cyfalaf LI.C)	40,000		
Gorseddau (Grant LI.Cymru)	50,000		
Nant Gwynant (Grant LI.Cymru)	45,000		
Cadair Idris (Grant LI.Cymru)	25,907		
Llyn Llywelyn (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	23,750		
Lon Gwyrfa (Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru)	23,848		
Cynllun Grid Cenedalethol	141,145		
Morfa Dyffryn (Grant T.C.LI.C)	2,017		
Llyn Nantlle (Grant T.C.LL.C)	3,185		
Clwy'r Ynn (Grant T.C.LL.C)	3,979		
Bioamrywiaeth (Grant T.C.LL.C)	6,181		
Dadcarboneiddio (Grant T.C.LL.C)	28,250		
Cadwraeth (Grant T.C.LL.C)	23,700		
Coetir Hynafol (Grant T.C.LL.C)	10,406		
Crafnant/ Capel Curig (Grant T.C.LL.C)	68,605		
Llyn Tegid (Grant T.C.LL.C)	1,580		
Cwm Rhwyddfor (Grant T.C.LL.C)	3,663		
Awyr Dywyll (Grant T.C.LL.C)	90,879		
Coed Cade Dyfi (Grant Refeniw)	18,228		
Cadwraeth Coed ac Amaeth	50,000		
Awyr Dywyll	7,246		
ENRaW	14,453		
Cynllun LIFE (Grant refeniw)	52,333		

Mawndiroedd	4,602	
Amlychedd Adeiliedig	6,428	
Harlech ac Ardudwy	21,883	
Archeoleg	5,000	
Rheolaeth Datblygu (Cronfa Adran 106)	198,362	
Cynllunio	34,682	
Mynediad	20,000	
Wardeiniaid	49,245	
		1,606,519
Corfforaethol		
Uwchraddio Toiledau (Grant T.C.LL.C Ll. Cymru)	59,617	
Offer Technoleg Gwybodaeth	50,000	
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Cyfalaf Ll.C)	50,000	
Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa	31,601	
EVCP (Grant Cyfalaf Ll.Cymru)	5,148	
Gorsfaoedd Dwr (Grant Cyfalaf Ll.C)	12,040	
Technoleg Gwybodaeth (Grant T.C.Ll.C)	13,308	
Cronfa Cymunedol (Grant T.C.LL.C)	59,496	
EVCP (Grant T.C.LL.C)	11,100	
Ymgysylltu - Cynllun Caru Eryri	10,000	
Safle Gwe	25,740	
Ymgysylltu Pobl Ifanc (Grant Refeniw Ll.Cymru)	20,010	
Llwybrau Llesiant (Grant Refeniw Ll.Cymru)	39,968	
Partneriaeth yr Wyddfa	30,000	
Rheolaeth Corfforaethol	578,542	
Grant Amrywiol Cyfalaf (Grant Cyfalaf Ll.Cymru)	8,000	
Fideos Partneriaeth yr Wyddfa	15,000	
Uwchraddio Cyfleusterau Morfa Mawddawch (Arian cyfatebol)	22,000	
Swyddog Partneriaeth Eryri	87,000	
		1,128,601
Cyfanswm		-2,506,018
Llithriant a Chostau Eraill (gweler atodiad 4)	-274,884	-274,884
Balans ar gael i'w ailddyrranu		516,324

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Llithriant a Chostau Eraill 2021-22		Atodiad 4	
	(£)	(£)	
Cynllunio			
cyflogaeth ychwanegol a system gynllunio	92,539		92,539
Archeoleg			
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	16,046		16,046
Treftadaeth Diwylliannol			
Costau dehongli Capel Celyn	7,000		
Prosiect addysg	5,000		12,000
Ymgysylltu			
Tanwariant ymgysylltu oherwydd oedi ar waith Hafod Eryri	10,000		
Ymgyrch ymwelwyr yr haf	8,000		
Côst datblygu gwefan	7,000		
Swyddog gwirfoddoli a llesiant (2 ddiwrnod yr wythnos)	14,800		
Costau gwirfoddolwyr Caru Eryri	1,500		
Cronfa Gymunedol 2022 - 2023	10,000		51,300
Partneriaeth yr Wyddfa			
Grantiau Partneriaeth Eryri	47,780		47,780
Amaeth			
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	13,500		13,500
CYFALAF			
Cerbydau Wardeinio a Mynediad	41,719		41,719
Cyfanswm Llithriant a Chostau Eraill 2020-21			274,884

ALLDRO CYFALAF 2021/22

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
AmgylcheddAdeiliedig	176,953	9,484	0	167,469	167,469	0
MTT Dolgellau	176,810	166,716	-126,251	136,345	136,345	0
LiDAR-Gr.LI.Cymru	17,590	0	0	17,590	17,590	0
LlwybrCarnGrantLICy	32,500	0	0	32,500	32,500	0
ArsyllfaSymudol-LIC	25,000	14,749	0	10,251	10,251	0
ByCoed(grant LI.C.)	77,145	4,338	0	72,807	72,807	0
Adf.Harlech-grantLIC	40,000	0	0	40,000	40,000	0
Gorseddau-grantLIC	50,000	0	0	50,000	50,000	0
NantGwynant-LIC	45,000	0	0	45,000	45,000	0
CadairIddris-LIC	50,000	24,093	0	25,907	25,907	0
LlynLlywely-grantLIC	23,750	0	0	23,750	23,750	0
LonGwyrfa-grantLIC	30,000	6,152	0	23,848	23,848	0
Coetiroedd(SLSP)	7,348	6,340	0	1,008	0	1,008
MeithrinfraGoed(SLSP)	4,917	4,425	0	492	0	492
Ysgwrn(SLSP2)	41,109	41,109	0	0	0	0
Ogwen(ffibr)--SLSP	20,000	20,000	0	0	0	0
MorfaDyffryn-SLSP	22,250	20,233	0	2,017	2,017	0
YSGWRN-SLSP1	74,208	62,913	0	11,295	0	0
HawlTramwy-SLSP	0	0	0	0	0	0
LlynNantlle-SLSP	8,227	5,042	0	3,185	3,185	0
Meithrinfra(grantWTr)	7,415	7,469	-54	0	0	0
Offer Mawndiroedd	27,923	27,923	0	0	0	0
Clwy'rYnn-grantLI.C.	50,000	46,021	0	3,980	3,980	0
Bioamrywiaeth-grLI.C	75,000	68,818	0	6,182	6,182	0
Ard.Cadwraeth-SLSP	0	42,300	-66,000	23,700	23,700	0
CoetirHynafol-SLSP	0	99,593	-110,000	10,407	10,407	0
Crafnant/CCurig-SLSP	0	147,000	-215,605	68,605	68,605	0
LlynTegid-SLSP	0	15,804	-17,384	1,580	1,580	0
CwmRhwyddfwr-SLSP	0	5,691	-9,355	3,664	3,664	0
Awyr Dywyll - SLSP	0	45,162	-136,042	90,880	90,880	0
Pont Troed Capel Curig (Grant LI.Cymru.)		6,490	0	-6,490	-6,490	
Is-gyfanswm Cynllunio a Rheolaeth Tir	1,083,145	897,864	-680,691	872,462	853,176	1,501
Corfforaethol						
Cader Idris	0	4,724	-4,999	275	0	275
SnowIntPlanGrantLICy	50,000	0	0	50,000	50,000	0
CynllPartWyddfaGrLIC	47,463	15,862	0	31,601	31,601	0
FfriddUchafGrLICymru	6,250	33,271	0	-27,021	-27,021	0
EVCP-GrLICymru	12,289	7,037	0	5,252	5,148	104
Mynediad-Gr.LI.Cymru	0	1,844	0	-1,844	-1,844	0
SystemTGcynllunioGrL	92,539	0	0	92,539	92,539	0
CynllGrAm-Gr.LICymru	8,000	0	0	8,000	8,000	0
SafleGwe-GrLICymru	10,000	90,611	0	-80,611	-80,611	0
PontLlugwyCCurig	0	6,490	0	-6,490	-6,490	0
Can.Ogwen (TAIS)	2,000	2,000	1,793	-1,793	0	-1,793
Gorsfaoedd Dwr	12,040	0	0	12,040	12,040	0
Tramper-grant LI.C.	0	6,680	0	-6,680	-6,680	0
Plas&M.Parcio-grLI.C	40,000	40,000	0	0	0	0
Uwchraddio toiledau	0	52,582	-112,200	59,618	59,618	0
Offer TG	55,990	7,878	0	48,112	50,000	-1,888
Cerbydau wardeiniaid	82,802	41,083	0	41,719	41,719	0
Prosiectau Mynediad	79,530	70,000	0	9,530	0	9,530
PenmaenBrith-grLI.C.	25,000	0	0	25,000	25,000	0
LlynCynwch-grLI.C.	30,000	0	0	30,000	30,000	0
BwchM-Brithdir-LIC	7,179	56,424	0	-49,245	-49,245	0
Brithdir-PenC-grLIC	40,000	0	0	40,000	40,000	0
DATH70-grantLIC	30,000	48,077	0	-18,077	-18,077	0
Fideos - PartWyddfa	15,000	0	0	15,000	15,000	0
RheoliYmwe(SLSP)ETJ	0	900	0	-900	0	-900
TG (SLSP)	0	43,192	-56,500	13,308	13,308	0
GwresogiHQ-SLSP	20,485	30,785	0	-10,300	-10,300	0
PaneliSolarHQ-SLSP	7,586	8,510	0	-924	-924	0
CronfaCymunedolEryri	0	138,160	-197,656	59,496	59,496	0
Dadcarboneyddio-SLSP	0	41,050	-69,300	28,250	28,250	0
EVCP-SLSP	0	34,899	-46,000	11,101	11,101	0
Is-gyfanswm Corfforaethol	674,153	782,059	-484,862	376,956	371,628	5,328
CYFANSWM	1,757,298	1,679,923	-1,165,552	1,249,418	1,224,804	6,829

31 Mawrth 2022

	Cronfa	Gweddill (£)	Disgrifiad
1	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	163,791	Cronfa o incwm gwerthiannau cyfalaf, lle medrir ond defnyddio arian ar gyfer gwariant cyfalaf.
2	Cronfa Adran 106	457,231	Arian a glustnodwyd ar gyfer tai fforddiadwy. Maint y gronfa yn amrywio - yn ddibynol ar y nifer o achosion cynllunio perthnasol sy'n codi, a'r defnydd a wneir o'r arian.
3	Cronfa Grantiau Refeniw	1,742,641	Grantiau refeniw a dderbyniwyd ymlaen llaw ac a glustnodwyd at ddefnydd penodol.
4	Cronfa Grantiau Cyfalaf	2,095,047	Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw ac a glustnodwyd at ddefnydd penodol.
5	Cronfa Rheoli Asedau	917,718	Cronfa ar gyfer delio gyda chostau eiddo sydd tu hwnt i gyllideb arferol blynyddol y Gwasanaeth Eiddo.
6	Cronfa Archwiliad Cyhoeddus (Cynllunio)	225,000	Ar gyfer delio gydag unrhyw archwiliad cyhoeddus, achos llys neu adolygiad barnwrol ar faterion Cynllunio ynghyd â delio gyda chostau ychwanegol ar adolygiad yn 2023 a chreu Cynllun Datblygu Lleol newydd yn 2025, .
7	Cronfa Arian Cyfatebol	991,398	Yn galluogi'r Awdurdod i geisio am gyllid allanol a gweithredu ar sail cyllid uwch na'r gwaelodlin blynyddol.
8	Cronfa Arian Gariwyd Drosodd	830,794	
9	Cronfa Prosiectau	936,357	Cronfa ar gyfer prosiectau penodol gan yr Awdurdod.
10	Cronfa Isadeiledd y Wyddfa	56,303	Arian ar gyfer cynnal isadeiledd ar y Wyddfa
11	Cronfa risgiau penodol	424,160	Cronfa i ddelio gydag unrhyw doriadau posibl.
12	Cronfa Gwytnwch Staff	120,000	Cronfa ar gyfer prynu gwasanaeth i mewn fel bo'r angen lle mae absenoldeb tymor hir, neu ar gyfer cyflawni elfennau penodol o waith.
13	Cronfa Risg Masnachol	100,000	Gan fod yr Awdurdod yn cynnwys ffynhonnellau incwm yn ei waelodlin, gall amgylchiadau godi yn arwain at ddiffyg yn yr incwm hwnnw e.e. tywydd anffafriol yn effeithio ar incwm meysydd parcio, Plas Tan y Bwlch a/neu yr Ysgwrn yn methu cyrraedd targedau. Buasai'r gronfa hon yn gymorth i wneud unrhyw ddiffyg yn iawn yn y flwyddyn unigol honno.
14	Cronfa Refeniw Cyffredinol (Balansau)	713,797	Mae disgwyliad i'r Awdurdod gadw arian wrth gefn rhag unrhyw gostau byrfyfyr ac o sylwedd na ragwelwyd.
	Cyfanswm	9,774,237	

EITEM RHIF 9

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	13 Gorffennaf 2022
TEITL	PROFFIL RISG YR AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod

CEFNDIR

- 1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri categori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sefyllfa gyfredol y Proffil Risg hwnnw a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yng nghyfarfod 23 Mawrth 2021.
- 1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodedeb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym mis Mawrth 2022 (manylder yn Atodiad 1).
- 1.3 Nodir crynodeb o'r risgiau:

Risg Uchel	Newid
Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Dim
Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at ddyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Dim
Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Dim

Risg Canolig	Newid
Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar waith yr Awdurdod.	Dim
Diffyg arian cyllido digonol.	Dim
Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Dim
Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".	Dim
Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect.	Dim
Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018.	Dim
Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddfaol.	Dim
Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod.	Dim
Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Dim
Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol.	Dim
Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth).	Y sgôr wedi cynyddu ond dal yn risg Canolig
Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Dim
Sicrhau dyfodol tymor hir i Plas Tan y Bwlch.	Dim
Risg o ymosodiad Seibr	Newydd
Risg Isel	Newid
Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Dim

GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU



Dim yn codi o'r Adroddiad hwn.




ARGYMHELLIAD



Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.




PAPURAU CEFNDIR



Cofrestr Risg: Diweddariad Gorffennaf 2022.



COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI											Gorffennaf 2022	
Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
1	Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	4	3	12	<p>Yn dilyn cynnydd o 10% yn ariannu referniw craidd Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer APCE yn 2021/22, ni fu unrhyw gynnydd yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2022/23, er gwaethaf codiadau chwyddiant dilynol na welwyd ers yr 1980au.</p> <p>Roedd rhagamcanion gwreiddiol LIC yn awgrymu dim newid i'r Grant erbyn 2023/24 a 2024/25, er y gallai hynny newid yng nghyd-destun datblygiad chwyddiant a chyllid canlyniadol ar gyfer LIC. Mae arwyddion bod gan Lywodraeth Cymru flaenoriaethau amgylcheddol, a bydd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod yn ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i ariannu ein costau chwyddiant anorfod, drwy gyfraniad o rai grantiau penodol, os nad yn y gyllideb craidd.</p> <p>Hefyd, mae APCE wedi cadw ychydig o hyblygrwydd wrth osod cyllideb 2022/23, tra hefyd yn cynnal lefel ddarvoudus o gronfeydd wrth gefn. Felly, er y bydd her ariannol bron yn anochel, rydym yn dal yn hyderus y byddwn yn gallu cyfyngu ar yr effaith ar wasanaethau'r Awdurdod.</p>	3	4	12		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Prif Swyddog Cyllid
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Hydref 2020 cymerwyd y penderfyniad i weithredu Plas Tan y Bwlch fel busnes G&B yn y tymor byr i ganolog, ac i symud ymlaen i ailstrwythuro staff fel amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae'r penderfyniad yn golygu bod y risg i'r Awdurdod wedi ei lleihau rhywfaint. Pryn bynnag, mae risg i'r Awdurdod o hyd, er bod yr effaith a'r effaith debygol wedi lleihau rhywfaint.</p> <p>Yn dilyn y broses o ailagor yr economi, mae Plas wedi cael tymor prysur yn gweithredu fel yr amlinellwyd uchod. Gwnaethom adrodd yn ddiweddar i Fwrdd Plas. Fel gyda gweddill y sector, rydym wedi dioddef o brinder staff mewn mannau ac ansicrwydd Covid. Rydym wedi cyfrifo'r incwm am y flwyddyn hyd yma, ac mae'r ffigyrau yn dangos lleihad yn y gost o redeg Plas Tan y Bwlch. Rydym yn ymwybodol bod gorwariant wedi bod ar staff yn ogystal â chostau tanwydd ar gyfer rhedeg a gwresogi'r Plas. Ni fydd y costau ychwanegol hyn yn cael eu gwrthbwyso gan gynhyrchu incwm ac mae ganddynt y potensial i gael effaith fach ar gyfrifon yr Awdurdod.</p>	3	5	15		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Cyf. Gwas. Corfforaethol



Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	Mae incwm Ebrill a Mai 2022 yn gyson gyda blynyddoedd blaenorol, felly rhagwelir gallu cyflawni targed y flwyddyn os bydd llif incwm gweddill y tymor yn parhau yn gyson â 2021/22.	4	1	4		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Pennaeth Eiddo
4	Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.	5	3	15	Mae'r tymor newydd wedi dechrau yn gadarnhaol, gydag adferiad i lefelau incwm 2019. Mae'r patrwm ymweld wedi newid yn sgil Covid, ond mae diddordeb gan ysgolion a grwpiau yn cynyddu ac mae tymor yr haf yn edrych yn brysus o safbwynt ymweliadau ysgol. Byddwn yn lansio'r adnoddau addysg newydd cyn gwyliau'r haf ac mae gweithgareddau Mewn Cymeriad ar y gweill ar gyfer mis Medi. Bwrlwm ydi'r nod. Methwyd a phenodi i'r swydd Rheolwr Profiad Ymwelwyr a chaiff y swydd ei hail hysbysebu'n fuan. Cynyddu incwm a gweithgaredd ydi nod y swydd hon.	3	4	12		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwylliaennol
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	4	3	12	Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa. Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafndiaeth / parcio yn yr ardal. Disgwylir niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd o'r DU eto'r haf hwn, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Rhoddwyd nifer o fesurau lliniaru ar waith gyda phartneriaid ar gyfer tymor 2021 a byddant yn parhau ar gyfer tymor 2022. Mae astudiaeth rheoli traffig ar gyfer Yr Wyddfa ac Ogwen wedi'i chomisiynu a'i derbyn. Mae'r partneriaid wedi ystyried argymhellion yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ystyried dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer materion o'r fath, ac mae Cylch Gorchwyl wedi ei drafftio ar gyfer Grŵp Trafnidiaeth Eryri. Gall Cydbwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafndiaeth ddarparu cyfleoedd pellach.	4	4	16		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Prif Weithredwr / Rheolwr Partneriaethau


Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
6	Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.	Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol.	3	3	9	<p>Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio â Archwilio Cymru ar gynllun peilot i ddatblygu ei effeithiolrwydd er mwyn gweithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.</p> <p>Yn ystod 2020/21 gwnaed astudiaeth ar wytnwch yr Awdurdod. Ar gyfer 2021/22 mae Archwilio Cymru yn edrych ar ba mor effeithiol yw'r Awdurdod wrth gael dylanwad ar ddatblygu Twristiaeth Gynaliadwy. Mi fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2022. Bydd yr astudiaeth ar gyfer 2022/23 yn ystyried cynhyrchu incwm gan yr Awdurdod.</p>	3	3	9		C (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Prif Weithredwr
7	Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fetu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fetu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalo, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwyllir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect.	Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da.	3	4	12	<p>Amserlen: Mae'r Gronfa Dreftadaeth wedi cymeradwyo yn ffurfiol ein cynnig ar gyfer estyniad digost i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Mae'r estyniad hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Mae ymarfer ail-broffilio o holl amserlenni gweithgaredd a phroffiliau gwariant prosiectau ar y gweill, a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes.</p> <p>Pwrpasau Cymeradwy: Mae'r cynllun yn cyflymu nawr bod aflonyddwch Covid-19 wedi lleddfu; mae'r tîm craidd a'r partneriaid wedi cyflwyno rhaglen llwyddiannus o ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu ar-lein ac yn bersonol ers ei lansio ym mis Hydref 2020, yn ogystal â gwaith ymarferol a grantiau bach. Mae Gweithgorau bellach wedi'u sefydlu, mae'r Grŵp Craidd yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae e-fwletin misol ar gyfer partneriaid bellach wedi'i sefydlu. Cynhaliwyd cyfarfod partneriaeth wyneb yn wyneb llwyddiannus iawn ym mis Mai 2022. Mae fframwaith gwerthuso'r cynllun wedi'i ddrafftio, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r gwerthuswr penodedig i nodi'r hyn sy'n gweithio / nad yw'n gweithio a chymryd camau cynnar lle bo angen, gyda ffocws cychwynnol ar brosesau partneriaeth craidd.</p> <p>Cyllid: Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau sy'n rhwymo'r gyfraith ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed.</p>	3	2	6		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
8	Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR).	Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi.	4	3	12	<p>Mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau angenrheidiol erbyn hyn.</p> <p>Mae'r cwrs wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg erbyn hyn. Datblygwyd y system fel ei fod yn atgoffa pawb pan mae hi yn amser ail eistedd y prawf. Gobeithio y bydd mwy o Aelodau a staff yn cwblhau'r cwrs eleni.</p> <p>Parhau i adolygu'r hyfforddiant a sicrhau fod staff ac aelodau yn ei gymryd fel bo'r angen.</p>	3	2	6		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.	5	3	15	<p>Ail adroddiad canol tymor i'r Comisiwn Ewropeaidd (a hawliad grant cysylltiedig) i'w gyflwyno ddiwedd mis Ebrill 2022, ond gydag ychydig o oedi tan ddiwedd mis Mai / dechrau Mehefin 2022. Yn debygol o ofyn am estyniad 2 flynedd i'r prosiect oherwydd oedi mewn rhai canlyniadau o ganlyniad i faterion staffio a Covid-19, ond ni fydd cost y prosiect yn ei gyfanrwydd yn cael ei effeithio.</p> <p>Adborth swyddogol y Comisiwn i'r adroddiad canol tymor cyntaf yn gadarnhaol ar y cyfan, heb unrhyw bryderon mawr wedi'u codi. Mynd i'r afael â mân bryderon ochr yn ochr â monitor y Prosiect mewn pryd ar gyfer yr adroddiad canol tymor nesaf.</p> <p>Lwyddodd y prosiect i gyrraedd y trothwy gwariant oedd ei angen er mwyn hawlio'r cyfanswm o £2m gan y Llywodraeth. Mae cyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru nawr wedi dod i ben.</p>	4	4	16		A (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Rheolwr Prosiect
10	Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfodddhaol.	Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach.	4	3	12	<p>Mae colledion staff pellach (Swyddog Pori, Hydref 2021, Swyddog Cyllid a Gweinyddol, Ebrill 2022, Swyddog Prosiect Cynorthwyol, Ebrill 2022) ac oedi wrth ailbenodi yn parhau i achosi pryder mawr, sy'n golygu nad yw'r prosiect yn dal i weithredu gyda cyflenwad llawn o staff am gyfnodau sylweddol. Mae'r trosiant staff rheolaidd yn achosi aflonyddwch ac yn effeithio ar gyflenwi. Mae safon uchel o waith yn parhau er gwaethaf yr aflonyddwch.</p> <p>Mae'r aflonyddwch a achosir gan y trosiant staff, ochr yn ochr ag effeithiau'r pandemig Covid-19, yn golygu y bydd y prosiect yn edrych am estyniad o 2 flynedd o leiaf. Mae'r broses hon wedi cychwyn, ond yn aros am gymeradwyaeth gan yr holl Bartneriaid cyn cyflwyno (disgwyllir Mehefin / Gorffennaf 2022).</p>	4	3	12		C (Adolygwyd P&A 23.03.22)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 3.4	 Ch. 1+2	Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill Yn 2019 sefydlwyd uned gyfathrebu ar y cyd a'i chynnal gan Awdurdod y Broads. Mae'r cynllun busnes ar gyfer y Bartneriaeth Genedlaethol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae cynnig ar gyfer y 3 i 4 blynedd nesaf yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w ystyried. Mae'r Sefydliad wedi dechrau derbyn rhoddion elusennol ar gyfer y gwaith mewn Parciau Cenedlaethol. Ni chefnogodd APCE gynnig 'Green Space Dark Sky' sy'n rhan o ddiwyddiad ehangach yn y DU a gynlluniwyd ar gyfer Hydref 2022.	Parhaus	PW
	Ch. 3	Ymrwymodd yr Awdurdod i gynllun busnes tair blynedd pellach ar gyfer Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol (PyPC) a'r uned Gyfathrebu. Gallai newid strwythurol o fewn Parciau Cenedlaethol Lloegr gael effaith bosibl ar gynllun busnes a chyflawni'r CPC a Chyfathrebu. Mae ffocws y cynnig Mannau Gwyrdd Awyr Dywyll wedi newid o ddefnyddio'r Wyddfa ei hun.		
	Ch. 4	Mae Cynllun Busnes Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol yn cael ei adolygu am y tair blynedd nesaf. Bydd trefniadau ar gyfer uned cyfathrebu ar y cyd yn cael eu hymestyn am 12 mis a'i adolygu yn dilyn y cyfnod hwn.		









Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 4 MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU
--	--


CW 4.1	 Ch. 1+2	Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau/ Staff i drafod a datblygu trefniadau llywodraethu modern yn APCE Penawdau Telerau ac Agenda Drafft wedi'u paratoi. Trefnwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Tasg a Gorffen ar gyfer 18fed Tachwedd.	Mawrth 2022 +	Cyf. Gwas. Corfforaethol
	Ch. 3 + 4	Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cynnal sawl cyfarfod yn ystod y chwarter. Cafodd yr adroddiad terfynol i'r Aelodau gael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mawrth o'r Gweithgor Aelodau		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen A/NEU wedi'i gwblhau


 Gohiriad byr NEU Bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2022

 Dim cynnydd AC ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022






Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 4.2	 WEDI'I GWBLHAU Ch. 1+2	Uwchraddio system ffôn newydd a darparu hyfforddiant cysylltiedig i staff Gweithredwyd y system newydd yn llawn ac fe gynhaliwyd yr hyfforddiant cysylltiedig. Mae'r holl waith papur perthnasol wedi'i gwblhau.	Mawrth 2022	Pen. Systemau Gwybodaeth
CW 4.3	 Ch. 1+2 	Gosod Gweinyddwyr Systemau Gwybodaeth newydd yn eu lle Ceisir ymchwil ac arddangosiadau. Gwaith paratoi ar weinyddion (serfwyr) yn cael ei wneud.	March 2022	Pen. Systemau Gwybodaeth
	Ch. 3 	Wedi mynd allan i dendr ac yn agor yn wythnos gyntaf Ionawr, 2022		
	Ch. 4	Dyfarnwyd y cwmni. Mae oediad sylweddol wrth ddsbarthu ar weinyddion oherwydd nad oes microsglodion ar gael ledled y DU. Mae wal dân, storfa ac ati ar amser a bydd agweddau o'r gwaith yn cael eu cwblhau. Mae'n bosibl y bydd gweinyddwyr yn cael eu gohirio tan fis Mai 2002.		
CW 4.4	 WEDI'I GWBLHAU Ch. 1+2	Datblygu a lansio Gwefan newydd ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Pethau'n mynd ymlaen yn dda o ran mewnbwn trawsadrannol. Disgwylir i'r wefan newydd gael ei lansio ym mis Tachwedd.	Mawrth 2022	Pen. Ymgysylltu Rheolwr Cynnwys a Brand
	Ch. 3	Lansiad mewnol wedi'i gwblhau ac adrannau'n adolygu eu hadrannau ar hyn o bryd. I'w lansio'n gyhoeddus ym mis Mawrth 2022.		
	Ch. 4	Safle We newydd wedi'i lansio		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen A/NEU wedi'i gwblhau


 Gohiriad byr NEU Bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2022


 Dim cynnydd AC ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022










Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CW 5	CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL
--	-------------	---


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.1		Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio)
	Ch. 1 +2	Roedd cyfleoedd yn gyfyngedig eleni oherwydd cau'r Ysgwrn am gyfnod hir tan Orffennaf 2021 oherwydd y pandemig, yn ogystal â nerfusrwydd gwirfoddolwyr 'hŷn' ynglŷn ag amlygu eu hunain i risgiau Covid.		
	Ch. 3 + 4	Trefnwyd ymweliad ar gyfer gwirfoddolwyr APCE yn hydref 2021. Caeodd y safle am y gaeaf ym mis Hydref 2021, felly ni fu unrhyw gyfleoedd pellach i ymgysylltu â gwirfoddolwyr. Bydd Ffair Wirfoddolwyr yn cael ei chynnal yng ngwanwyn 2022.		
CW 5.2		Pan gaiff ei mabwysiadu, gweithredu'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu i sicrhau bod cymunedau lleol yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod	Medi 2021 Parhaus	Pen. Ymgysylltu
	Ch. 1+2	Mae'r strategaeth wedi'i datblygu, ei chymeradwyo gan yr Awdurdod, ac yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd.		
	Ch. 3	Gwaith parhaus a gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf. Mae arolwg cymunedol a busnes yn rhoi mewnwelediad defnyddiol ar gyfer mireinio camau gweithredu.		
	Ch. 4	Mae'r gwaith yn parhau i gyfleu negeseuon trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfrwng y wasg draddodiadol lleol a chenedlaethol		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen A/NEU wedi'i gwblhau


 Gohiriad byr NEU Bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2022




 Dim cynnydd AC ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.3	 Ch. 1+2+3	Parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol ar agweddau o Astudiaeth Rheoli Traffig Ardal yr Wyddfa Gweler cynnydd A1.2.	Parhaus 2021/22	Rheolwr Partneriaethau Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa
	Ch. 4	Fel uchod a digwyddiad ymgysylltu diweddar sydd ar gael i'w ail-wyllo ar wefan Partneriaeth yr Wyddfa.		
CW 5.4	 WEDI'I GYFLAWNI Ch. 1+2	Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned Ar 18 a 20 Mai 2021, cynhaliwyd 2 weminar gyda Chynghorau Cymuned a Thref a rhanddeiliaid (un ar gyfer Gogledd y Parc ac un ar gyfer y De). Rhoddodd y weminar drosolwg o'r heriau a gafwyd ers dechrau'r pandemig a gwybodaeth am y paratodau ar gyfer tymor yr haf sydd i ddod. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am dwristiaeth gynaliadwy, ymgyrch gyfathrebu 'Cynllunio, Canfod, Diogelu' 2021, meysydd parcio a rheoli traffig a Chynllun Llysgenhadon Eryri. Dilynwyd y weminar gyda holiadur i alluogi cymunedau lleol i godi materion sydd bwysicaf iddynt o ran effeithiau ymwelwyr ac i ofyn am adborth ar weithredoedd yr Awdurdod.	O leiaf 1 cyfarfod blynyddol Mai/Mehefin	Pennaeth Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.5	 WEDI'I GWBLHAU Ch. 1 - 4	Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartion â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri Cynhelir cyswllt gyda 3 chyfarfod rhithwir yn cael eu cynnal ym mis Mawrth, Mehefin a Medi gyda Fforymau Mynediad Lleol y Gogledd a'r De.	Parhaus March 2022	Rheolwr Mynediad


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen A/NEU wedi'i gwblhau


 Gohiriad byr NEU Bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2022

 Dim cynnydd AC ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter 	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CW 5.6	 WEDI'I GWBLHAU	Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol Mae Cyfarfod Blynyddol Grŵp Cyswllt Amaethyddol wedi'i gynnal ar 23 Tachwedd, 2021.	Cyfarfod Blynyddol Tachwedd	Pennaeth CCA
CW 5.7	- Ch. 1 - 4	Adfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb (pan fo'n briodol i wneud hynny) trwy aelodau staff perthnasol, gwirfoddolwyr, llysgenhadon a phartneriaid Nid yw'n briodol gwneud hyn ar hyn o bryd.	Parhaus Mawrth 2022	Pob Pen. Gwas.
CW 5.8	 Ch. 1 - 4	Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb. ➤ Mae prosiectau perthnasol wedi'u cyflwyno i'r Cynghorau Cymuned ac mae'r Rheolwr Partneriaethau yn aelod o sawl Fforwm Cymunedol. ➤ Mae Llysgennad Eryri wedi'i ddatblygu gyda mewnbwn sylweddol gan drigolion a chymunedau Eryri. ➤ Mae'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth ar gyfer Yr Wyddfa ac Ogwen yn cael ei datblygu law yn llaw â'r cymunedau yn yr ardal. ➤ Mae'r Rheolwr Partneriaethau wedi cyflwyno Cynllun Eryri i Un Llais Cymru, Undebau Amaethyddol, grwpiau Merched y Wawr a Chyngorhau Cymuned	Parhaus	Rheolwr Partn. Rheolwr Cynllunio Swyddogion Prosiect

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen A/NEU wedi'i gwblhau

 Gohiriad byr NEU Bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2022

 Dim cynnydd AC ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022

CANLYNIADAU

FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

CW1, 2: Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.


CW2, 4: Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.


CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)*


CW5: Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2)*

CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol *(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)*

JO/Perfformiad/
Amcanion Llesiant 2021/22
Chwarter 4 Ionawr – Mawrth 2022

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen A/NEU wedi'i gwblhau

 Gohiriad byr NEU Bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2022

 Dim cynnydd AC ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022

Tud. 41

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	13 Gorffennaf 2022
TEITL	ADRODDIAD MONITRO CWYNION
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS	Adrodd ar y cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod

1.0 CEFNDIR

- 1.1. Cofrestrir pob cwyn ffurfiol a'u monitro'n ganolog, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau gofal cwsmeriaid gwych wrth ddarparu ein gwasanaeth. Derbyniodd yr Awdurdod 14 o gwynion ffurfiol yn uniongyrchol yn ymwneud â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.
- 1.2. O'r 14 cwyn a dderbyniwyd, roedd 6 yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, derbyniwyd 5 cwyn am staff, cafwyd 1 gŵyn am anaf a gafwyd o osodiad celf, 1 gŵyn yn ymwneud â'r gwasanaeth parcio a theithio i Ben y Pass, ac 1 gŵyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch y gwasanaeth rhag-archebu parcio ar gyfer Pen y Pass sydd ar gael trwy wefan yr Awdurdod.
- 1.3. Ymchwiliwyd i bob cwyn yn drylwyr; ac mae'n dda nodi bod bob un cwyn wedi derbyn ymateb o fewn y cyfnod targed o 15 diwrnod gwaith.
- 1.4. O'r cwynion a ymchwiliwyd, cafodd 7 eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w hymchwilio.
- 1.5. Yn yr achosion hynny pan na lwyddodd gwasanaeth yr Awdurdod i gyrraedd y safon ddisgwyladwy, 'rydym wedi ymddiheuro'n brydlon a chymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.

2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

Crynodeb o'r Cwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn rhannol**TORRI SAFONAU'R IAITH GYMRAEG****Cyflwynwyd cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg nad oedd y system rhag-archebu parcio ar-lein ar gyfer Pen y Pass yn gwbl ddwyieithog (Ebrill 2021)**

Ym mis Ebrill 2021, gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg nad oedd y system rhag-archebu parcio a weithredwyd ym Mhen y Pass, yn galluogi unigolyn i symud ymlaen drwy'r broses archebu gyfan yn Gymraeg. Nid oedd y gwasanaeth hwn, sydd ar gael trwy glicio dolen o wefan yr Awdurdod i ddarparwr trydydd parti, yn gwbl ddwyieithog er gwaethaf sicrwydd gan y cwmni bod hyn yn bosib cyn yr arwyddwyd y cytundeb cychwynol.

Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, cyhoeddwyd Hysbysiad Penderfyniad ar y 15fed o Hydref 2021 yn cadarnhau methiant yr Awdurdod i gydymffurfio â Safonau 50, 52 a 56. Gofynnwyd i'r Awdurdod lunio cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau priodol, a rhoddwyd amserlen o flwyddyn i gydymffurfio'n llawn.

Un o'r anawsterau y mae'r Awdurdod yn ei wynebu wrth weithredu system o'r fath yw bod yn rhaid iddi gael ei hintegreiddio'n llawn â thechnoleg Adnabod Rhifau Ceir Awtomatig (ANPR), gan mai'r bwriad yn y pen draw ar gyfer y dyfodol yw y gall y system weithredu gyda'r adnoddau staffio lleiaf posib. Roedd y nifer cyfyngedig o gwmnïau a all gynnig y dechnoleg hon ac a oedd yn barod i ddatblygu datrysiad dwyieithog yn gyfyngedig iawn.

Ers hynny, mae staff yr Awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb gyda JustPark ac wedi gweithio'n agos gyda nhw i ddatblygu system rhag-archebu gwbl ddwyieithog.

ANAF O OSODIAD CELF**Derbyniwyd cwyn gan riant ar ôl i'w plentyn ddioddef anaf arwynebol pan ddisgynnodd darn o osodiad celf (Awst 2021)**

Gosodwyd gosodiad celf 'dant-y-llew' yn Llyn Mair fel rhan o weithgareddau Celf Eden nôl yn 2008. Syrthiodd gwialen fetel o'r gosodiad a tharo plentyn ar ei gefn gan achosi anaf arwynebol ym mis Awst 2021. Adroddodd y riant am y digwyddiad a chwyno bod y gosodiad yn anniogel.

Ymddiheurwyd a chafodd y gosodiad celf ei dynnu lawr ar unwaith.

STAFF YR AWDURDOD

Cwyn bod aelod o staff ym Maes Parcio Pen y Pass wedi bod yn anghwrtais ac yn amhroffesiynol (Mai 2021)

Roedd yr achwynydd wedi cyrraedd maes parcio Pen y Pass heb wybod mai maes parcio archebu ymlaen llaw yn unig oedd ar y safle a chwynodd fod cynorthwydd y maes parcio wedi bod yn anghwrtais a braudd yn ddi-amynedd.

Ar y diwrnod penodol hwn, roedd llefydd parcio ar gael yn y maes parcio a rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r achwynydd gan y cynorthwydd ar sut i gael mynediad i'r safle rhag-archebu ar-lein i dalu am y parcio. Cafodd yr achwynydd anhawster i gael mynediad i'r safle ar-lein oherwydd y signal gwael ac yna gyda defnyddio'r safle. Yn ystod y cyfnod hwn, dywedodd yr achwynydd fod cynorthwydd y maes parcio yn ddiamynedd ac yn anghwrtais wrth gyfathrebu â hi a oedd yn amhroffesiynol.

Bryd hynny roedd ymgyrch gyhoeddusrwydd aml-sianel/platfform barhaus wedi bod ar waith dros 2 fis i godi ymwybyddiaeth o'r angen i rag-archebu llefydd parcio, ond yn anffodus nid oedd y neges wedi cyrraedd nifer sylweddol o bobl, ac o ganlyniad i hynny roedd pobl yn parhau i gyrraedd Pen y Pass heb archebu ymlaen llaw.

Yn ogystal â hyn, nid oes signal ffôn symudol ac nid yw'r wifi cyhoeddus ar y safle yn rhyw ddibynadwy iawn, ac roedd hyn yn achosi problemau i bobl gysylltu â'r system. Roedd hyn yn creu rhwystredigaeth i'r aelodau o'r cyhoedd sy'n cyrraedd y maes parcio ac i'r staff ar y safle sydd angen gweithredu'n gyflym i gyfeirio pobl a sicrhau nad yw'r traffig yn cronni ar y ffordd. Yn anffodus, mae gweithio mewn awyrgylch o bwysedd uchel ym Mhen y Pass yn ystod yr amseroedd hyn yn golygu bod staff yn wynebu cael eu cam-drin ar lafar ar sail ddyddiol.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn esgusodi ymddygiad anghwrtais neu diamynedd gan staff yr Awdurdod a rhoddwyd ymddiheuriad i'r achwynydd. Ymdriniwyd â'r mater gyda'r aelod o staff dan sylw.

Cwyn bod aelod o staff Maes Parcio Pen y Pass wedi rhegi ar yr achwynydd (Medi 2021)

Gyrrodd yr achwynydd a'i frawd i mewn i faes parcio Pen y Pass ar feiciau modur drwy ardal conau, gan fwriadu aros am gyfnod byr i dynnu lluniau. Honnodd yr achwynydd fod cynorthwydd y maes parcio wedi mynd atynt a dweud 'ni allwch barcio yma' ac yna fe regodd arnynt. Nododd yr achwynydd hefyd eu bod wedyn yn cael eu cam-drin ymhellach gan feiciwr oedd yn mynd heibio.

Cychwynnwyd ymchwiliad i'r digwyddiad ac ymdriniwyd â'r mater drwy gyfrwng proses ddisgyblu'r Awdurdod. Ymddiheurwyd i'r achwynydd a'i frawd, ac fe'u sicrhawyd bod yr Awdurdod yn cymryd adroddiadau o ymddygiad sarhaus gan staff o ddifrif.

CYNLLUNIO

Cwyn am ddiffyg camau cydymffurfio wedi i bryder gael ei fynegi (Gorffennaf 2021)

Derbyniwyd cwyn na chymerwyd unrhyw gamau ystyrion bedwar mis ar ôl i bryder gael ei godi ynghylch y posibilrwydd o dor-rheolaeth cynllunio ar safle, ac nad oedd diweddariad wedi ei roi i'r achwynydd ynghlŷn â'r ymchwiliad.

Roedd y pryder a godwyd ar safle a oedd eisoes â hanes hir iawn o faterion cydymffurfio yn ymestyn yn ôl dros gyfnod o flynyddoedd. O ganlyniad, roedd hanes cynllunio'r safle yn hir a chymhleth, gyda'r cymhlethdod ychwanegol bod rhan o'r safle yn Lleoliad Ardystiedig o dan awdurdodaeth y Clwb Carafanau a Chartrefi Modur.

Ar ôl cynnal ymweliad safle cychwynol, bu'n rhaid i'r Swyddog weithio drwy'r holl hanes cynllunio a hefyd siarad â Swyddogion eraill a oedd wedi ymwneud â'r safle yn y gorffennol, i ddeall y materion yn llawn ac i asesu'r tor-rheolaeth ymddangosiadol cyn mynd at y perchnogion. Am y rheswm hwn a'r ffaith bod hwn yn un o nifer fawr iawn o achosion yr oedd y Swyddog Cydymffurfiaeth yn ymchwilio iddynt bryd hynny, roedd hyn yn golygu bod y mater wedi cymryd llawer mwy o amser na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl safonau gwasanaeth yr Awdurdod.

Ymddiheurwyd a rhoddwyd eglurhad i'r achwynydd ynghylch y camau oedd i'w cymryd wrth symud yr ymchwiliad yn ei flaen.

Cwyn am ddiffyg ymateb i gais am gyngor cyn cyflwyno cais (Tachwedd 2021)

Roedd yr achwynydd, trwy ei asiant, wedi cyflwyno cais am gyngor cyn cyflwyno cais ar gyfer adeilad rhestredig 4 mis ynghynt ac nid oedd wedi derbyn ymateb eto.

Yn ystod y cyfnod hwn o 4 mis roedd yr achwynydd wedi bod yn aros am ymateb, roedd Swyddog Amgylchedd Adeiledig wedi gadael ei swydd gyda'r Awdurdod ac roedd y broses recriwtio ar gyfer y swydd hon ar y gweill. Roedd ôl-groniad o achosion wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn, ac nid oedd gan yr Awdurdod yr arbenigedd mewnol angenrheidiol i ymateb i'r math hwn o gais am gyngor cyn cyflwyno cais perthnasol i adeilad rhestredig.

Ar adeg y gŵyn, roedd Insall Architects wedi cael eu penodi ychydig wythnosau ynghynt fel ymgynghorwyr allanol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ac roedd cais yr achwynwyr am gyngor cyn cyflwyno cais yn y broses o gael ei drin gan yr ymgynghorwyr.

Ymddiheurwyd am yr amser a oedd wedi mynd heibio ers i'r cais hwn gael ei gyflwyno a rhoddwyd cydnabyddiaeth nad oedd hyn yn amlwg yn lefel dderbyniol o wasanaeth.

Cwyn am ddiffyg ymateb i e-bost (Mawrth 2022)

Roedd yr achwynydd wedi anfon e-bost ac wedi derbyn cydnabyddiaeth yr un diwrnod yn nodi y byddai ymateb llawn yn cael ei anfon o fewn 10 diwrnod gwaith. Ar ôl 15 diwrnod gwaith, cwynodd nad oedd wedi cael ymateb eto.

Anfonwyd ymddiheuriad i'r achwynydd nad oedd y gwasanaeth cynllunio wedi ymateb i'w e-bost mewn modd amserol. Wrth ymchwilio i achos hyn, nid oedd y Technegwyr Cynllunio wedi gallu dod o hyd i unrhyw olion o'r e-bost gwreiddiol ym mewnlwch e-bost y gwasanaeth cynllunio. Roedd yn ansicr beth oedd wedi digwydd i'r e-bost gwreiddiol a thybiwyd mai camgymeriad gweinyddol ar ein rhan ni ydoedd a dilëwyd yr e-bost trwy gamgymeriad.



BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH DYDD MERCHER 9 CHWEFROR 2022	
	<p><u>Yn bresennol:</u></p> <p>Aelodau: Cyng. Judith Humphreys Mr. Tim Jones (Cadeirydd) Ms. Tracey Evans Mr. Emyr Williams Mr. Iwan Jones Ms. Zara Roberts</p> <p>Yn bresennol: Dyweddodd y Cyng. Wyn Ellis Jones (ex-officio)</p> <p>Swyddogion: Mr Edward Jones, Mrs. Sarah Roberts</p>
1.	Ymddiheuriad
	Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.
2.	Datgan Budd
	Ni ddatganwyd unrhyw Fudd diddordeb Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
3.	Cofnodion
	<p>Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2021, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.</p> <p>Yn codi yn sgil hynny,</p> <p><u>4. Trosolwg Ariannol Plas</u> Dyweddodd y Prif Weithredwr y byddai'n werth galw cyfarfod ychwanegol o Fwrdd Plas Tan y Bwlch i drafod y ffigurau sydd a wnelo maint yr elw/gwaelodlin unwaith y byddai'r data i gyd ar gael. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gofyn i'r Pennaeth Cyllid edrych ar gostau ac incwm ac unwaith y byddai Rheolwr y Tŷ hefyd wedi cael cyfle i edrych ar y ffigurau, byddai'r wybodaeth ar gael i Aelodau'r Bwrdd maes o law.</p>
4.	Diweddariad Plas Tan y Bwlch
	Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Tŷ i roi diweddariad i'r Aelodau ar y ddau fis diwethaf a rhoi cipolwg ar y flwyddyn i ddod.

Adroddwyd - Cyflwynodd Rheolwr y Tŷ'r adroddiad a rhagolygon ariannol 2022, gan amlinellu'r prif bwyntiau.

Cynghorodd Rheolwr y Tŷ ar yr hyn a ganlyn:

- Gan fod dwy ystafell na ellir eu defnyddio ar hyn o bryd, bydd angen lletya rhai gwesteion yn yr Oakeley Arms yn ystod eu harhosiad a fyddai'n anffodus yn golygu colled ariannol i'r Plas.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod Red Bull wedi talu am y difrod a achoswyd yn ystod eu harhosiad diweddar. Nododd yr aelodau fod Rheolwr y Tŷ wedi gofyn am flaendal o £5,000 ganddynt ar gyfer 2022 a byddai cyfanswm y tâl yn cynyddu'n sylweddol ac er bod Red Bull wedi cytuno i dalu'r ffi am y flwyddyn i ddod, roeddent ychydig yn anhapus bod y pris wedi codi'n sylweddol ac maent wedi gofyn i'r pris gael ei adolygu ar gyfer 2023 os na achoswyd unrhyw ddifrod y tro hwn. Roedd Red Bull wedi cadarnhau y byddent yn dod â'u tîm diogelwch eu hunain, a byddai hyn yn cymryd y cyfrifoldeb oddi ar Blas Tan y Bwlch.
- Dywedodd Rheolwr y Tŷ, yn dilyn adborth gan westeion yn dweud y byddent yn aros eto yn y Plas pe byddai pryd gyda'r nos yn cael ei ddarparu, y penderfynwyd cynnig pryd gyda'r nos. Dywedodd Rheolwr y Tŷ fod dau gogydd ar hyn o bryd gan nad oedd y swydd ar gyfer cogydd ychwanegol wedi'i llenwi hyd yma ond teimlai y byddai'n bosibl cynnig pryd gyda'r nos dridiau'r wythnos gyda'r staff arlwygo presennol a bod aelodau eraill o staff wedi gwirfoddoli i gynorthwyo yn y gegin lle bo modd.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, dywedodd Rheolwr y Tŷ na fyddai angen i staff weithio shifftiau rhanedig er mwyn darparu pryd gyda'r nos. Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn bryderus na fyddai digon o staff i gyflenwi yn ystod salwch neu wyliau blyneddol.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ bod staff yn cael eu talu am unrhyw waith ychwanegol.

Yn codi wedi hynny, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y canlynol/gwnaed y sylwadau a ganlyn:

- Gofynnodd y Prif Weithredwr am i'r gweithgaredd/archebion grŵp ac ati gael eu paru â'r model busnes erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd a phe bai'r dadansoddiad o'r ffigurau/incwm ar gael y byddai'n fuddiol edrych ar berfformiad y tri mis prysuraf i weld a oedd Plas yn cyd-fynd â'r targed.
- Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n werth sefydlu ai recriwtio staff ychwanegol neu reoli oriau staff fyddai'r ateb gorau o ran darparu cyflenwad digonol yn ystod y misoedd prysuraf.
- Roedd yr aelodau'n bryderus ynghylch y materion staffio ond cytunwyd bod recriwtio staff arlwygo yn broblem ledled Cymru. Cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ fod Plas wedi ymuno â Supertemps Ltd ond heb unrhyw lwyddiant hyd yma. Gofynnodd aelod a fyddai gwario ar adnoddau yn gwneud pethau'n haws i staff e.e., peiriannau coffi hunanwasanaeth ac ati, teimlai Rheolwr y Tŷ na fyddai hyn yn lleddfu'r pwysau ar y staff presennol gan ei bod yn bryderus am eu lles a dywedodd mai recriwtio aelod ychwanegol o staff i'r Tîm Arlwygo fyddai'r ateb gorau.
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cwmnïau mwy mewn gwell sefyllfa i liniaru problemau recriwtio drwy ddefnyddio staff

	<p>presennol i gyflawni rolau ychwanegol gan fod nifer y staff a gyflogwyd yn sylweddol uwch na nifer y staff a gyflogir yn y Plas.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dywedodd Rheolwr y Tŷ y byddai blaendal yn cael ei gymryd nawr gydag archebion bwyd i dalu costau pe bai gwesteion yn canslo eu harchebion. - Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Rheolwr y Tŷ y byddai'r Plas yn darparu'r arlwygo ar gyfer y priodasau a archebwyd eisoes a dywedodd ei bod mewn cysylltiad â chwmni arlwygo allanol pe cyfyd yr angen yn y dyfodol. Teimlai'r aelodau fod prisiau priodasau rhesymol iawn a theimlwyd y dylid adolygu'r prisiau ac y dylai Plas geisio meincnodi gyda lleoliadau eraill. Teimlai Rheolwr y Tŷ, oherwydd cyflwr presennol rhai o'r ystafelloedd yn y Plas, nad oedd yn briodol codi pris uchel am y lleoliad ond cytunodd y dylid adolygu'r gost am brydau yn y man. <p>GWEITHRED</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. nodi'r adroddiad. 2. galw cyfarfod ychwanegol o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch i drafod ffigurau incwm a gwariant yn fanwl unwaith y byddant ar gael.
5.	<p>Adroddiad ar Gyflwr yr Adeilad</p>
	<p>Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Eiddo i roi diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd hyd yma.</p> <p>Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Eiddo'r adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau. Cyfeiriodd at bwynt 2.5 o'i adroddiad a dywedodd, oherwydd y byddai angen gwneud gwaith yn ystod misoedd y gwanwyn/haf pan fyddai'r tywydd fwyaf ffafriol, y byddai angen i'r Bwrdd drafod blaenoriaethau busnes y dyfodol, er mwyn sefydlu pa effaith y byddai'r gwaith yn ei gael ar y busnes ac fel y trafodwyd gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol byddai angen cynnwys hyn yng nghost gyffredinol y gwaith i sicrhau nad yw busnes yn y Plas yn cael ei effeithio'n fwy na'r angen.</p> <p>Trafododd aelodau'r Bwrdd yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Eiddo y byddai gwaith atgyweirio dros dro yn cael ei gwblhau ar ystafell rhif deg erbyn diwedd mis Ebrill. - Dywedodd y Pennaeth Eiddo y byddai'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu a'i gwblhau fesul cam gan na ellid cwblhau'r holl waith mewn blwyddyn. Dywedodd y byddai angen ystyried anghenion busnes cyn gwneud gwaith uwchraddio ar yr adeilad - Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol er bod cyllid ar gael i uwchraddio'r ystafelloedd teimlai y dylid rhoi blaenoriaeth i'r problemau allanol cyn buddsoddi yn yr ystafelloedd. Cytunodd y Pennaeth Eiddo y dylid mynd i'r afael â'r problemau lleithder yn mynd i mewn i'r adeilad cyn ystyried gwaith mewnol. - teimlai aelod y dylai Aelodau'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar wario arian ar yr adeilad i sefydlu beth sydd ei angen ac ymhle ddylid gwario arian. Roedd yn bwysig bod y camau priodol yn cael eu cymryd i osgoi gwaethygu unrhyw broblemau neu wynebu problemau tebyg ymhlen ychydig flynyddoedd. - Mewn ymateb i gwestiwn gan y Prif Weithredwr, cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo fod y proffil cost dros ddeng mlynedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad llawn a dywedodd ei fod yn fuddsoddiad sylweddol.

- Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn ymwybodol bod gan Rob Chambers yr arbenigedd i gynyddu effeithlonrwydd ynni'r adeilad a gofynnodd a oedd unrhyw arian grant ar gael. Roedd y Pennaeth Eiddo yn obeithiol y byddai'r cwmni'n gallu dod o hyd i arian grant ac roedd posibilrwydd y gellid dod o hyd i gyllid ychwanegol drwy ddatgarboneiddio.
- Roedd yr aelodau'n hapus i nodi bod y problemau gyda'r system wresogi a Hydro bellach wedi'u datrys. Dywedodd y Pennaeth Eiddo fod cael mwy o gapasiti yn yr Adain Eiddo yn golygu y gellid rhoi blaenoriaeth i unrhyw broblemau cynnal a chadw yn y Plas. Diolchodd Rheolwr y Tŷ i'r Rheolwr Eiddo a Chyfleusterau am ei gefnogaeth werthfawr a oedd wedi caniatáu iddi gyflawni ei rôl ei hun yn hytrach na gorfod delio â materion cynnal a chadw.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Prif Weithredwr, cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo mai ychydig o ystafelloedd oedd ag agweddau/nodweddion pensaernïol arbennig a fyddai'n galluogi'r Plas i fabwysiadu mesurau arbed ynni fel rhan o'r Her Datgarboneiddio a bod yn fwy hygyrch i ffynonellau cyllid grant ychwanegol. Dywedodd y Pennaeth Eiddo fod Cynllun Cadwraeth yn cael ei baratoi i ystyried pa rinweddau oedd angen eu cadw, byddai hyn hefyd yn sicrhau na fyddai unrhyw un o'r nodweddion arbennig yn cael eu heffeithio'n ormodol.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Pennaeth Eiddo, er y gellid lleihau effeithlonrwydd ynni'r adeilad drwy reoli'r effeithlonrwydd gwresogi, y byddai llinellau presennol y gyllideb yn cael eu cadw.
- Cytunodd yr Aelodau y byddai'n fanteisiol i Aelodau'r Bwrdd gyfarfod ar y safle i drafod adroddiad y syrfëwr unwaith y byddai ar gael.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a diolchodd i Reolwr y Tŷ a'r Pennaeth Eiddo am eu hadroddiadau.

GWEITHRED:

1. nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma.
2. galw cyfarfod ychwanegol o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch cyn gynted â phosibl i drafod canfyddiadau adroddiad y syrfëwr, y cyfarfod i'w gynnal ar y safle.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:55



**BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH
DYDD MERCHER 18 MAI 2022**

	<p><u>Yn bresennol:</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Y Cyng. Judith Humphreys Mr. Tim Jones (Cadeirydd) Mr. Emyr Williams Mr. Iwan Jones</p> <p>Yn bresennol: Y Cyng. Wyn Ellis Jones (ex-officio); Mr Llion Scott, Syrfëwr (Smithers Purslow).</p> <p>Swyddogion: Edward Jones, Sian Owen, Sarah Roberts, Alun Gwilym (rhan o'r cyfarfod, taith o amgylch yr adeiladau).</p>
1.	<p>Ymddiheuriadau</p>
	<p>Ms Tracey Evans, Ms Zara Roberts.</p>
2.	<p>Datganiad Buddiant</p>
	<p>Ni ddatganwyd unrhyw Fuddiant Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.</p>
3.	<p>Cofnodion</p>
	<p>Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.</p>
4.	<p>Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol Plas Tan y Bwlch 2021-22</p>
	<p>Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn hysbysu'r Aelodau am berfformiad ariannol Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2021-2022.</p> <p>Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad yn amlinellu'r prif bwyntiau. Gofynnodd i'r Aelodau nodi eitem 8.1 o'r adroddiad a dywedodd, er bod cost sylweddol i'r Awdurdod o hyd, ei bod yn galonogol ei bod wedi gostwng yn ystod 2021-22 o gymharu â blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Yn codi wedi hynny, diolchodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Pennaeth Cyllid am ei hadroddiad a oedd yn rhoi gwell dealltwriaeth i Aelodau'r Bwrdd o berfformiad Plas Tan y Bwlch. Adroddodd fod y busnes yn newid drwy'r amser gyda pheth o'r busnes craidd yn dychwelyd. Dywedodd y byddai'n fuddiol datblygu partneriaeth gyda sefydliad arall oedd ag arbenigedd yn y sector lletygarwch gan mai prin oedd y profiad o redeg busnes o'r fath o fewn yr Awdurdod.</p>

	<p>Trafododd yr Aelodau yr adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Pennaeth Cyllid am y ffigurau gan eu bod yn rhoi darlun clir o'r sefyllfa ariannol a nododd fod yr Awdurdod wedi derbyn cyllideb wastad am y 3 blynedd nesaf a bod yr ansicrwydd mewn perthynas â sefyllfa gyllidebol Plas Tan y Bwlch yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr Awdurdod, sydd angen ei reoli. - Bu'r aelodau'n trafod yr anhawster o godi prisiau'r ystafelloedd oherwydd cyflwr cyffredinol yr ystafelloedd, a bod angen buddsoddiad i'w huwchraddio. - Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Rheolwr y Tŷ yn paratoi cynllun busnes newydd a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch, a fyddai'n cynorthwyo i benderfynu ar y ffordd ymlaen o ran y model busnes mwyaf hyfyrw ar gyfer y Plas. - Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y lefelau staffio presennol yn y gegin yn gynaliadwy, a bod swydd y Cogydd Cynorthwyol wedi'i hysbysebu'n ddiweddar. Roedd y cynllun busnes drafft hefyd yn asesu'r angen am Reolwr Arlwyio er mwyn galluogi'r busnes i ehangu ymhellach. - Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod cyflog yr Awdurdod wedi bod yn uwch na sefydliadau eraill yn y gorffennol, ond efallai nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd. - Trafododd yr Aelodau'r opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol a'r costau posibl dan sylw. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, cyn symud ymlaen ag unrhyw gynigion, fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau bod Plas Tan y Bwlch yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol gan ei fod yn Adeilad Rhestredig Gradd II*. - Dywedodd y Prif Weithredwr fod Swyddogion yn ystyried cau'r Plas yn ystod misoedd tawelach Ionawr a Chwefror ac y byddai'r mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch. - Teimlai'r Prif Weithredwr ei bod bellach yn angenrheidiol chwilio am bartner posibl i gynorthwyo gyda rhedeg Plas Tan y Bwlch. Roedd yr aelodau wedi'u calonogi bod y ffigurau yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond roedd angen gwaith sylweddol ar du allan yr adeilad cyn symud ymlaen i ffurfio unrhyw bartneriaeth(au). Trafododd yr Aelodau opsiynau ariannu posibl i wneud y gwaith angenrheidiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod arian eisoes mewn lle i gwblhau'r gwaith mewnol ond bod angen gwneud y gwaith allanol yn gyntaf neu ochr yn ochr â gwaith mewnol. - Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai angen i'r Bwrdd adrodd yn ôl i'r Awdurdod pe byddai angen adnoddau ychwanegol. - Cytunodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod Swyddogion yn dechrau'r drafodaeth ar bartneriaethau posibl ac yn ffafrio'r opsiwn o sefydlu partneriaeth gyda sefydliad cymunedol i ddechrau ond ni fydd darparwyr preifat yn cael eu diystyru. <p>GWEITHREDU</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. nodi cynnwys yr adroddiad. 2. Swyddogion i symud ymlaen â thrafodaethau o ran chwilio am bartneriaeth bosibl.
5.	Adroddiad Arolwg Cyflwr
	Cyflwynwyd – Adroddiad gan Llion Scott (Syrfêwr) o Smithers Purslow. Croesawodd y Cadeirydd Mr Scott i'r cyfarfod a diolchodd iddo am ei adroddiad cynhwysfawr.

Adroddwyd – Cyflwynodd Mr Scott ei adroddiad a'i gefndir. Roedd yr aelodau hefyd wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol cyn y cyfarfod a dosbarthwyd copi o'r Crynodeb Gweithredol i'r Aelodau yn y cyfarfod.

Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Syrfëwr am ei adroddiad.
- Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i wahanol bwyntiau yn yr adroddiad a thrafodwyd cyllid grant posibl i gwblhau'r gwaith. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n werth ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud cais drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Syrfëwr y byddai angen cyllidebu ar gyfer tua £30,000 i £40,000 yn flynyddol i gynnal a chadw'r adeilad yn dilyn unrhyw waith adnewyddu yn unol â chyfnod deng mlynedd ei adroddiad. Dylai hyn sicrhau bod ffabrig yr adeilad yn cael ei gadw mewn cyflwr da.
- Dywedodd y Pennaeth Eiddo y byddai angen blaenoriaethu pa adeiladau i ganolbwyntio arnynt yn dilyn y cyfarfod oherwydd lefel y buddsoddiad sydd ei angen i wneud atgyweiriadau strwythurol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r prif dŷ oedd prif flaenoriaeth yr Awdurdod.
- Trafododd swyddogion y goblygiadau pe na bai'r gwaith gofynnol ar gyfer blwyddyn un yn gallu cael ei gwblhau o fewn yr amserlen ofynnol. Dywedodd y Syrfëwr bod angen rhoi sylw brys i rai materion ac na ellid eu gadael am flwyddyn oherwydd rhesymau lechyd a Diogelwch ac er mwyn osgoi unrhyw ddirywiad pellach i'r adeilad.
- Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion y dylid blaenoriaethu gwariant brys, cytunwyd y byddai'r Syrfëwr yn pecynnu'r gwaith ac yn blaenoriaethu unrhyw waith sydd angen sylw ar unwaith, byddai hyn wedyn yn rhoi digon o amser i'r Awdurdod geisio cyllid allanol.
- Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn disgyn ar yr Awdurdod, yna byddai angen i'r Awdurdod ystyried y model Busnes mwyaf hyfwrw ac unrhyw bartneriaeth bosibl.

Yn codi wedi hynny, aeth Aelodau a Swyddogion gyda'r Syrfëwr ar daith o amgylch yr adeilad i weld a thrafod canfyddiadau'r adroddiad ymhellach.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a diolchodd i'r Syrfëwr am ei adroddiad.

Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion ar y canlynol:-

GWEITHRED:

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **y dylid blaenoriaethu'r gwaith sydd angen sylw ar unwaith a'i gwblhau cyn gynted â phosibl.**
3. **Swyddogion i archwilio opsiynau cyllid grant i gwblhau'r gwaith allanol ar yr adeilad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 16:25